Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**



# ADOLYGIAD CENEDLAETHOL O GARTREFI GOFAL I BLANT YNG NGHYMRU

2018-19



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| RHAGAIR | 4 |
| CYFLWYNIAD | 6 |
| CRYNODEB O'R PRIF GANFYDDIADAU | 8 |
| ARGYMHELLION | 10 |
| RHAN 1: ANSAWDD Y GOFAL | 12 |
| RHAN 2: PROFFIL Y CARTREF GOFAL I BLANT YNG NGHYMRU | 36 |
| ATODIAD 1: VOICES FROM CARE | 50 |
| ATODIAD 2: METHODOLEG | 51 |
| ATODIAD 3: ADRODDIAD ESTYN AR YSGOLION ANNIBYNNOL | 52 |

# RHAGAIR

*Gillian Baranski, Prif Arolygydd*



Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno ein hadroddiad cenedlaethol ar gartrefi gofal i blant. Rydym yn cydnabod y cyfraniad y gall gofal preswyl o ansawdd uchel ei wneud wrth alluogi plant sydd â phrofiad o ofal i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Felly, yn ein cynllun strategol 2017-20 gwnaethom ymrwymo i gynnal adolygiad thematig o ansawdd y gofal a'r canlyniadau i blant sy'n byw mewn cartrefi gofal ledled Cymru. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn ategu ac yn hysbysu gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Mae AGC yn ymrwymedig i godi safonau a chyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Drwy ein gwaith rheoleiddio, rydym yn ceisio sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc sy'n dibynnu ar wasanaethau gofal yn cael y gofal a'r cymorth gorau posibl er mwyn iddynt allu cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill.

Pobl sydd wrth wraidd popeth a wnawn, ac rwy'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at y darn hanfodol hwn o waith, yn enwedig y plant a'r bobl ifanc a gynhigiodd fewnolwg gwerthfawr i'w profiadau o ofal.  Hoffwn ddiolch hefyd i ddarparwyr y cartrefi gofal a gyfrannodd at yr adolygiad a'u staff, ac rwy'n arbennig o ddiolchgar am waith y grŵp rhanddeiliaid, y bu ei gymhelliant, ei egni a'i her yn amhrisiadwy yn ystod yr adolygiad hwn.

Wrth gynnal yr adolygiad hwn, gwelsom enghreifftiau o arferion cadarnhaol yr hoffem eu cydnabod, eu rhannu a'u hyrwyddo. Nodwyd hefyd feysydd lle roedd canlyniadau'r plant yn wael, a hynny'n aml am nad oedd y rheini sydd mewn sefyllfa i sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth roedd eu hangen arnynt yn cydweithio i wireddu hynny.





Mae canfyddiadau’r adroddiad hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hadroddiad trosolwg cenedlaethol ar ofal a chymorth awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019, a'r adroddiad ar gamfanteisio ar blant a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017 (mae'r ddau ar gael ar ein gwefan) . Mae'n siomedig nad yw'r canfyddiadau a gynhwysir yn ein hadolygiadau yn newydd ac ar y cyfan nid oes angen adnoddau ychwanegol i'w cyflawni. Mae plant profiadol gofal yn haeddu'r gorau gan bob un ohonom. Byddwn yn mynd ar drywydd yr argymhellion a gynhwysir yn ein dau adroddiad, gan weithio gydag eraill i sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

GILLIAN BARANSKI

*Prif Arolygydd*

# CYFLWYNIAD

### DIBEN YR ADRODDIAD HWN

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i blant a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Mawrth 2019. Mae'r adolygiad yn ymdrin â chartrefi gofal cofrestredig i blant sy'n darparu amrywiaeth o leoliadau preswyl, gan gynnwys seibiannau preswyl byr i blant anabl, ond nid yw'n cynnwys darpariaeth ddiogel.

Ar 31 Gorffennaf 2018, roedd cyfanswm o 152 o gartrefi gofal i blant yn weithredol yng Nghymru, a oedd yn dod o dan gwmpas yr adolygiad. Roedd lle i hyd at 681 o blant yn y cartrefi hyn.

### NODAU'R ADOLYGIAD CENEDLAETHOL

Nodau cyffredinol yr adolygiad cenedlaethol oedd gwneud y canlynol:

- gwerthuso ansawdd y gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal i blant a pha mor dda roeddent yn hyrwyddo llesiant y plant ac yn eu helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol;
- adlewyrchu profiadau a safbwyntiau plant sy'n byw mewn cartrefi gofal i blant ar hyn o bryd;
- disgrifio capasiti cartrefi gofal i blant yng Nghymru a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, a'r ffordd y cânt eu defnyddio gan awdurdodau lleol yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU;
- cynnig dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r sector cartrefi gofal i blant yng Nghymru.

Ochr yn ochr â'r adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i blant, cynhaliodd AGC hefyd adolygiad thematig o wasanaethau awdurdodau lleol i blant, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019.

Roedd clywed gan blant am eu profiadau o fyw mewn cartrefi gofal yn rhan hanfodol o'r adolygiad hwn, a chomisiynwyd Voices from Care Cymru i wneud y gwaith hwn ar ein rhan. Caiff sylwadau'r plant eu nodi drwy Ran 1 o'r adroddiad ac yn Atodiad 1.

I gefnogi'r adolygiad, paratôdd Estyn adroddiad ar y sector ysgolion annibynnol gan fod rhai o'r ysgolion hyn yn gysylltiedig â chartrefi gofal cofrestredig, lle mae plant sy'n byw yn y cartrefi yn mynychu'r ysgol. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn Atodiad 3.



> **Roedd clywed gan blant am eu profiadau o fyw mewn cartrefi gofal yn rhan hanfodol o'r adolygiad hwn...**

# CRYNODEB O'R **PRIF GANFYDDIADAU**

Gwelsom fod llawer o blant mewn cartrefi gofal yn cael gofal a chymorth o ansawdd da. Mae'r plant yn cyflawni'r canlyniadau gorau pan fydd gwasanaethau'n defnyddio modelau cydnabyddedig a chyfannol sy'n cynnwys therapi ac addysg.

Roedd bron bob cartref yn darparu amgylchedd cynnes, cyfforddus a hygyrch i blant, gyda'r llety wedi'i ddodrefnu a'i gynnal a'i gadw'n briodol.

Gwelwyd ymrwymiad cyffredinol i sicrhau bod plant yn cael profiadau cymdeithasol a hamdden cadarnhaol, gan wella eu sgiliau cymdeithasol. Roedd hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu llesiant emosiynol cyffredinol.

Roedd sawl un o ganfyddiadau'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r rheini a nodwyd yn adolygiad cenedlaethol AGC o gymorth awdurdodau lleol i blant â phrofiad o ofal a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019.

Roedd awdurdodau lleol yn cael anawsterau i sicrhau lleoliadau priodol i ddiwallu anghenion plant; ac mae anghenion plant a'u ffactorau risg wedi mynd yn fwy cymhleth.

Roedd rhai o'r plant wedi cael nifer o brofiadau lle roedd lleoliadau wedi chwalu, gan arwain at symud rhwng gwasanaethau nifer sylweddol o weithiau. Roedd hyn yn cynnwys maethu, gofal preswyl ac, i rai plant, leoliadau diogel. Roedd y profiadau hyn wedi effeithio ar eu llesiant, gan ychwanegu at eu trawma, ac effeithio'n ddifrifol ar eu gallu i greu cysylltiadau a meithrin perthynas gadarn â'u gofalwyr a'u cymheiriaid.

Mae angen gwell trefniant comisiynu lleol i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu mor agos i'w cartref â phosibl. Gwelsom anghysondeb rhwng lleoliad cartrefi gofal i blant yng Nghymru a'r awdurdodau lleoli yr oedd y plant yn dod ohonynt.

Gwelsom nad oedd rhai o'r plant yn derbyn yr addysg statudol y mae ganddynt yr hawl iddi, ac nad oedd anghenion iechyd emosiynol rhai o'r plant yn cael eu diwallu. Yn achos y plant hyn, gwelsom nad oedd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cydweithio er mwyn sicrhau bod y plant yn cael y cymorth cywir i fodloni eu hamcanion llesiant.

Mae nifer y plant sy'n mynd ar goll o ofal mewn rhai ardaloedd o Gymru wedi cynyddu, ac mae nifer y plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol wedi cynyddu hefyd. Roedd yn destun pryder gweld, o dan rai amgylchiadau lle roedd plant yn dianc o'r cartref, fod y darparwyr, yr awdurdodau lleoli a'r timau diogelu lleol bron iawn yn derbyn hyn. Ychydig iawn o dystiolaeth a welsom i gefnogi ymateb rhagweithiol, gyda strategaethau amgen yn cael eu hystyried er mwyn diogelu plant.

Roedd angen i rai cartrefi gofal ddatblygu rôl y gweithiwr allweddol er mwyn meithrin cydberthnasau cefnogol â'r plant, gan gydnabod eu cryfderau, helpu i leihau risg ac adeiladu eu gwydnwch at y dyfodol.





# PRIF ARGYMHELLION

1. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth, awdurdodau lleoli, awdurdodau lleol a byrddau iechyd sicrhau bod gan blant fynediad at wasanaethau arbenigol lleol gan gynnwys iechyd ac addysg, er mwyn sicrhau bod eu canlyniadau llesiant yn cael eu cyflawni.

2. Er mwyn helpu i atal lleoliadau rhag chwalu, dylai gofal preswyl gael ei ystyried fel dewis cadarnhaol i rai plant, yn hytrach na cham i'w gymryd pan nad oedd unrhyw ddewis arall.

3. Dylai darparwyr nad ydynt yn darparu eu gwasanaeth drwy fodel o ofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ystyried datblygu dull mwy cydlynol o gynnig gofal a chymorth i blant.

4. Dylai darparwyr, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, yr heddlu ac asiantaethau eraill gydweithio mewn ffordd fwy cydweithredol er mwyn gwella llesiant plant drwy sicrhau:

   - digon o leoliadau i ddiwallu anghenion plant a'u galluogi i fyw yn agos at eu cartrefi;
   - gellir diwallu anghenion addysg statudol pob plentyn sy'n byw mewn gofal preswyl;
   - rhoddir prosesau monitro a goruchwylio gwell a chamau gweithredu cydlynol ar waith pan fydd plant yn mynd ar goll o ofal ac yn wynebu risg o gamfanteisio rhywiol;
   - ceir mwy o weithio mewn partneriaeth er mwyn deall y ffactorau sy'n peri i leoliadau rhai plant chwalu droeon, a chaiff yr hyn a ddysgir ei gymhwyso er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd eto;
   - ceir mynediad amserol at wasanaethau iechyd arbenigol, yn enwedig Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS);
   - mae pob plentyn sy'n byw mewn cartref gofal yn cael mynediad at eiriolaeth ac ymwelwyr annibynnol.

5. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth amlasiantaeth i leihau'r risg y bydd plant â phrofiad o ofal yn troi at droseddu.

6. Dylai awdurdodau a darparwyr lleoli adolygu polisïau ac arferion mewn perthynas â throthwyon ar gyfer riportio plant sydd ar goll, gan sicrhau bod y rhain yn gyson â chanllawiau ac nad ydynt yn gosod plant mewn risg ddiangen a mwy o niwed, gan gynnwys troseddoli.

Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn nodi'r meysydd eraill i'w gwella a'u datblygu o dan bob prif faes.



# RHAN 1:
# ANSAWDD Y GOFAL

Ystyriodd yr adolygiad ansawdd y gofal a'r cymorth i blant sy'n byw mewn cartrefi gofal, o dan 10 prif faes.

- Pa mor dda y caiff plant eu cyflwyno i'r cartref
- Mae gan y plant gynllun personol sy'n nodi eu hanghenion unigol o ran gofal a chymorth
- Caiff anghenion iechyd y plant eu diwallu
- Caiff anghenion addysg y plant eu diwallu
- Caiff anghenion cymdeithasol a hamdden y plant eu diwallu
- Mae'r plant yn cael gofal a chymorth o ansawdd da
- Caiff y plant eu cefnogi i gyrraedd eu potensial
- Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag niwed
- Caiff hawliau'r plant eu hyrwyddo'n rhagweithiol
- Mae'r plant yn byw mewn amgylchedd cynnes, diogel a magwrus.

Roedd y rhain yn sail i'r hunanasesiad a gwblhawyd gan ddarparwyr ac yn hysbysu llinellau ymholi ar gyfer ein harolygiadau a'n gwaith ymgysylltu â phlant.

## 1. PA MOR DDA Y CAIFF PLANT EU CYFLWYNO I'R CARTREF

### YR HYN A DDYWEDODD Y DARPARWYR WRTHYM

Yn gyffredinol, roedd y darparwyr yn cydnabod pa mor bwysig ydoedd i ymweld â'r plentyn a/neu fod y plentyn yn ymweld â'r cartref fel rhan o'r asesiad cyn-derbyn er mwyn hysbysu'r penderfyniad p'un a fyddai modd iddynt ddiwallu ei anghenion. Dywedodd y darparwyr fod anawsterau weithiau wrth gyflawni hyn oherwydd natur brys y ceisiadau am leoliadau, a gaiff eu gwaethygu gan y nifer cynyddol o blant y mae eu lleoliadau'n chwalu.

Roedd mwy na hanner y darparwyr wedi tynnu sylw at rwystrau i broses weinyddol lwyddiannus, wedi'i rheoli'n dda. Roedd hyn yn adlewyrchu eu profiadau ag amrywiaeth o awdurdodau lleoli ledled Cymru a Lloegr. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- nid oedd rhai awdurdodau lleoli yn darparu gwybodaeth gywir, gyfredol a chynhwysfawr ar yr adeg atgyferio;
- awdurdodau lleoli yn oedi cyn ymateb i geisiadau am ragor o wybodaeth;
- roedd rhai awdurdodau lleoli yn gyndyn o ddarparu rhagor o wybodaeth nes bod y darparwr yn cynnig lleoliad;
- gwybodaeth hanesyddol anghywir ac asesiadau risg anghyflawn.



> “**...y broblem gydag atgyfeiriadau a derbyniadau yw eu bod yn digwydd, mewn 90% o achosion, oherwydd bod lleoliad wedi chwalu.**”



Dywedodd y darparwyr wrthym fod y rhain yn gallu peri i leoliadau rhai plant chwalu os na allai'r cartref ddiwallu eu hanghenion. Roeddent yn pryderu hefyd am effaith derbyniadau a oedd yn amhriodol o bosibl ar y plant eraill a oedd eisoes yn byw yno. Disgrifiwyd rhai achosion lle roedd pwysau gan gomisiynwyr i sicrhau lleoliadau brys yn golygu bod cydweddu anghenion y plentyn a'r gwasanaeth yn cael ei neilltuo oherwydd yr angen brys am leoliad. Nododd rhai darparwyr yn glir nad oeddent yn derbyn plant mewn argyfwng. Dywedodd y darparwyr wrthym fod lleoliadau argyfwng yn digwydd yn amlach oherwydd bod lleoliadau'n chwalu. Yn ôl un darparwr "*y broblem gydag atgyfeiriadau a derbyniadau yw eu bod yn digwydd, mewn 90% o achosion, oherwydd bod lleoliad wedi chwalu.*"

### YR HYN A WELSOM MEWN AROLYGIADAU

Ar y cyfan, gwelsom fod plant yn cael eu cefnogi i symud i wasanaeth ag asesiadau a phrosesau derbyn clir, a oedd yn cadarnhau y gallai'r gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion. Yn y mwyafrif o'r gwasanaethau, roedd y cofnodion yn dangos prosesau penderfynu effeithiol â rhesymau clir dros dderbyn neu wrthod atgyfeiriadau, ac ystyriaeth briodol i gydnawsedd â phlant eraill. Roedd asesiadau effaith yn ystyried y risgiau a rhoddwyd sylw priodol i anghenion hyfforddi staff neu unrhyw ofynion staffio ychwanegol.

Roedd rhai eithriadau, gan gynnwys y canlynol:

- methiant i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i gydnawsedd plant â phlant eraill a oedd eisoes yn byw yn y cartref;
- methiant i asesu plant a ph'un a fyddai modd i'w hanghenion gael eu diwallu mewn ffordd ddiogel ac effeithiol;
- derbyniadau a gofal a chymorth dilynol yn cael eu darparu nad oeddent yn unol â datganiad o ddiben y darparwr;
- prosesau derbyn nad oeddent yn ystyried y ffactorau risg yn llawn na ph'un a allai'r gwasanaeth gefnogi anghenion y plant yn ddiogel, gan beri i blant roi eu hunain mewn sefyllfaoedd peryglus a oedd yn eu rhoi mewn perygl o niwed;
- nid oedd gwiriadau cyn-derbyn o wledydd eraill y DU bob amser yn ystyried y gwahaniaethau yn y fframweithiau deddfwriaethol er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn eu hawliadau, er enghraifft mynediad i addysg a gofal iechyd.

Mewn rhai achosion, gwelsom nad oedd awdurdodau lleol wedi darparu'r cofnodion perthnasol. Er y gwnaed ymdrechion i gael gafael arnynt, nid oeddent wedi'u darparu o hyd. Lle roedd lleoliadau wedi'u trefnu, roedd y plant, at ei gilydd, yn cael ymweld â'r cartref cyn y lleoliad, ac yn cael croeso cadarnhaol i'r cartref. Nid oedd hyn yn wir yn achos lleoliadau brys. Mewn rhai ardaloedd, roedd diffyg lleoliadau priodol yn effeithio ar y broses dderbyn ac addasrwydd y lleoliad. Mewn rhai o'r sefyllfaoedd hyn, cafodd hyn effaith niweidiol ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol ac mewn rhai achosion, arweiniodd at chwalu lleoliadau plant.

Defnyddiwyd 'canllaw i'r gwasanaeth' i gefnogi'r broses o gyflwyno'r plant i'r cartrefi. Roedd cynnwys y canllawiau hyn yn amrywio, ond yn gyffredinol, roeddent yn cynnwys gwybodaeth am hawliau a hawliadau plant; sut i wneud cwyn; eiriolaeth; ffotograffau o'r cartref; proffiliau staff; a rheolau a disgwyliadau. Fodd bynnag, nid oedd y rhain bob amser mewn fformat a oedd yn adlewyrchu anghenion a dewisiadau cyfathrebu'r plant, gan gynnwys yr iaith Gymraeg.

### YR HYN A DDYWEDODD Y PLANT WRTHYM

Roedd darlun cymysg i'w weld yn y ffordd yr oedd y plant yn disgrifio cael eu derbyn i gartrefi. Dywedodd rhai o'r plant wrthym eu bod wedi siarad â'r rheolwr a'r staff cyn symud i'r cartref a'u bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau am leoli, tra bod eraill yn dweud nad oedd hynny'n wir am eu profiad nhw.

Nid oedd pob plentyn wedi cael cyfle i ymweld â'r cartref cyn symud i mewn. Er enghraifft, siaradodd plentyn am ei brofiad o symud i gartref heb ymweld ag ef ymlaen llaw, a gweld plentyn arall yn byw yno a oedd wedi ei fwlio mewn ysgol flaenorol. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio rhyngasiantaethol ac ymweliadau cyn derbyn.

Disgrifiodd y plant eu profiad o'r ychydig ddiwrnodau cyntaf yn y cartref. Dywedasant fod y staff yn groesawgar ac yn gefnogol iawn, ond eu bod yn teimlo bod angen mwy o waith paratoi ar gyfer symud, gan gynnwys gallu mynd i'r ysgol. Gwnaethant siarad am bwysigrwydd cyd-dynnu'n dda â'r plant eraill sy'n byw yn y cartref, a'u bod yn cydweddu'n bersonol.

Dywedodd rhai o'r plant wrthym nad oeddent bob amser yn teimlo'n ddiogel yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y lleoliad. Disgrifiodd un plentyn ddigwyddiad yn fuan ar ôl iddo gyrraedd, pan fu '12 awr o wallgofrwydd' a arweiniodd at orfod galw am ambiwlans.

Roedd plentyn arall a oedd wedi symud ar fyr rybudd wedi'i frawychu'n ddifrifol gan y sefyllfa, ar ôl cael dim ond diwrnod o rybudd ei fod yn symud. Dywedodd plentyn arall ei fod yn teimlo'n ynysig iawn am nad oedd yn dod o Gymru.

**“Roeddwn i'n gwybod mod i'n symud ond yn meddwl bod pythefnos gen i: yna dywedon nhw fy mod yn dod yfory”**

Roedd un person ifanc, a oedd yn 12 oed ar y pryd, wedi cael ei leoli gyda pherson ifanc 16 oed, a dywedodd:

**"Doeddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel na bod croeso i fi yno, ond ar y cyfan, rwy'n teimlo'n ddiogel nawr."**

Dywedodd y plant wrthym beth allai ei gwneud yn haws wrth symud i mewn:

- “Dim byd, gan fod y tŷ yn ei gwneud yn haws i'r bobl ifanc symud i mewn i'r cartref.”
- “Rwy'n credu y gallai'r plant gael eu symud i mewn ychydig yn gyflymach, pe bai angen.”
- “Byddem yn hoffi helpu plant i symud i mewn drwy baentio eu hystafelloedd gwely. Byddwn yn eu helpu i ddadbacio.”

Dywedodd y plant wrthym am yr hyn roeddent yn ei hoffi am ofal preswyl:

- “Bwyd, arian, lleoliad”
- “Arian poced i brynu pethau’’
- “Rwyt ti'n cael £50 bob mis ar gyfer dillad newydd’’
- “Gwobrau a theithiau’’
- “Arian ar gyfer y pethau sydd eu hangen e.e. helpu i brynu moped a chael trwydded’’
- “Gwobrau … cael arian a gwobr am fod yn dda.”

#### ENGHREIFFTIAU O ARFER DA

- Roedd rhai gwasanaethau yn dyrannu gweithiwr allweddol cyn i'r plentyn gael ei dderbyn.
- Roedd rhai gwasanaethau yn caniatáu i'r plant ddewis eu gweithiwr allweddol fel rhan o'r broses dderbyn.
- Roedd nifer o wasanaethau yn cwblhau llyfryn 'Dyma fi' pan oedd y plant yn symud i mewn i'r cartref.
- Roedd rhai gwasanaethau yn cefnogi'r plant i ddatblygu DVDs am y gwasanaeth mewn amrywiaeth o fformatau.

#### MEYSYDD I'W GWELLA A'U DATBLYGU

- Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau eu bod yn ystyried pob ffactor perthnasol cyn cynnig lleoliad i blentyn, gan gynnwys cydnawsedd â'r blant eraill a sgiliau a phrofiad y staff.
- Mae'n rhaid i ddarparwyr roi proses dderbyn gadarn ar waith, er mwyn sicrhau eu cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaeth sy'n benodol i anghenion unigol y plentyn, a'u bod yn hyderus y gallant ddarparu gofal priodol.
- Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod ganddynt adnoddau priodol i ddiwallu anghenion y plant, fel y nodir yn eu Datganiad o Ddiben.
- Dylai awdurdodau lleoli lleol sicrhau eu bod yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol am blant i ddarparwyr ar yr adeg atgyfeirio, a'i bod yn cael ei diweddaru pan fydd anghenion neu amgylchiadau’r plant yn newid.





## 2. MAE GAN Y PLANT GYNLLUN PERSONOL SY'N NODI EU HANGHENION UNIGOL O RAN GOFAL A CHYMORTH

### YR HYN A DDYWEDODD Y DARPARWYR WRTHYM

Roedd darparwyr yn cydnabod gwerth cynllun personol, a adolygir yn rheolaidd i gefnogi gofal effeithiol. Yn eu hunanasesiad, disgrifiodd rhai darparwyr bwysigrwydd casglu gwybodaeth allweddol am blant yn ystod y broses atgyfeirio er mwyn hysbysu'r cynllun personol. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau ei bod yn ddogfen gyfannol, wedi'i llunio ar y cyd â phlant, er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu eu dymuniadau, teimladau ac uchelgeisiau, yn ogystal â disgrifio’r ffordd y caiff gofal a chymorth o ddydd i ddydd eu darparu er mwyn sicrhau y caiff eu canlyniadau llesiant eu cyflawni.

Dywedodd y darparwyr wrthym fod y rhwystrau i ddatblygu cynlluniau personol yn cynnwys diffyg gwybodaeth amserol a chynhwysfawr gan awdurdodau lleol, ynghyd â diffyg cyfathrebu effeithiol, diffyg cymorth a phrinder gweithwyr cymdeithasol. Roedd hyn yn dwysau os oedd pellter rhwng yr awdurdod lleol a'r cartref, a lle roedd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn newid. Dywedodd un darparwr fod plentyn wedi cael pum gweithiwr cymdeithasol gwahanol mewn pum mis.

### YR HYN A WELSOM MEWN AROLYGIADAU

Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o gynlluniau personol a oedd yn drylwyr, wedi'u saernïo'n dda, yn nodi canlyniadau clir ac yn rhoi esboniad clir o briod rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol weithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â gofal a chymorth y plentyn. Mewn rhai gwasanaethau, roedd angen i gynlluniau gael eu datblygu'n well, gyda phlant yn chwarae rhan fwy rhagweithiol wrth gytuno ar eu nodau a dweud beth sy'n bwysig iddynt.

Lle roedd cynlluniau personol o ansawdd da i'w gweld, roeddent yn cynnwys mesurau rheoli risg a chynlluniau rheoli ymddygiad effeithiol; gyda'r plant yn cael eu cynnwys yn y broses o gadw eu cofnodion eu hunain. Roedd gweithwyr allweddol yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau bod plant yn ymgysylltu â'u cynlluniau personol ac â pherchenogaeth ohonynt. Gwelsom dystiolaeth dda mewn rhai gwasanaethau a oedd yn dangos bod hyn yn gweithio'n effeithiol, gyda phlant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff, ac yn siarad â nhw am yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Yn y gwasanaethau hynny lle roedd angen i'r cynlluniau personol gael eu datblygu ymhellach, nodwyd gennym fod angen dadansoddiad gwell a mwy o eglurdeb am y ffordd y byddai anghenion plant yn cael eu diwallu, a'u canlyniadau'n cael eu cyflawni. Nid oedd cynlluniau bob amser yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am anghenion cymhleth plant, neu sut y dylai'r staff reoli risg a'u diogelu'n briodol. Nid oedd yr awdurdod lleoli lleol wedi rhannu ei gynllun gofal a chymorth â nifer o wasanaethau. Mewn achosion eraill, lle roedd yr awdurdod wedi gwneud hynny, roedd ansawdd y cynlluniau yn wael.

### YR HYN A DDYWEDODD Y PLANT WRTHYM

Roedd barn y plant ar y ffordd roeddent wedi cael eu cynnwys yn eu cynlluniau personol yn amrywio. Dywedodd rhai wrthym eu bod yn teimlo "yn rhan fawr" o'r cynlluniau a'r penderfyniadau am eu gofal, ac roedd y mwyafrif yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn eithaf da. Dywedodd rhai o'r plant nad oedd eu gweithwyr cymdeithasol bob amser yn gofyn iddynt a oeddent yn teimlo eu bod yn cael y gofal cywir, ac yn aml, nid oedd y swyddog adolygu annibynnol yn cyfarfod â nhw cyn eu hadolygiad statudol. Siaradodd y plant am bwysigrwydd cael rhywbeth yn gyffredin â'u gweithwyr allweddol, gan eu galluogi i wneud pethau gyda'i gilydd a gweithio ar eu cynlluniau. Ystyriwyd bod ymddiriedaeth yn ffactor allweddol wrth feithrin cydberthnasau.

**“Rwy'n gallu siarad â'm gweithiwr allweddol am fy nheimladau”**

**‘’Rwy'n ymddiried yn llwyr yn y gweithwyr yn fy nghartref ac yn cael hwyl gyda nhw’’**

### ENGHREIFFTIAU O ARFER DA

- Mae rhai darparwyr yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynllunio mewn ffordd sy'n addas i blant ac sy'n sicrhau bod plant wrth wraidd y broses honno. Caiff cynlluniau eu hysgrifennu yn y person cyntaf.
- Mewn gwasanaethau lle gwelwyd bod cynlluniau personol yn cael eu datblygu mewn ffordd ddeinamig, roedd anghenion y plant yn cael eu hadolygu'n barhaus a bod y cynllun yn cael ei addasu wrth i anghenion y plant newid. Roedd y plentyn a phobl berthnasol yn cael eu cynnwys wrth gytuno ar unrhyw newidiadau.

### MEYSYDD I'W GWELLA A'U DATBLYGU

- Mae angen i ddarparwyr sicrhau caiff plant eu cefnogi'n well i ddeall y broses o ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol, a bod yn rhan ohoni. Dylent sicrhau bod  broses o lunio cynlluniau personol i blant yn broses barhaus a bod y cynlluniau yn canolbwyntio ar ganlyniadau.



## 3. CAIFF ANGHENION IECHYD Y PLANT EU DIWALLU

### YR HYN A DDYWEDODD Y DARPARWYR WRTHYM

Dywedodd y darparwyr wrthym am achosion o oedi cyn cael gwybodaeth am anghenion iechyd plant gan awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd fel ei gilydd, a olygai nad oedd eu hanghenion iechyd yn cael eu diwallu. Ymhlith y prif resymau dros hyn, roedd y canlynol:

- lle bu plant mewn cyfres o leoliadau gwahanol, roedd yn cymryd amser i wybodaeth gael ei throsglwyddo i'r darparwr a'r ysbyty perthnasol, a allai olygu nad oedd y plant yn cael y cymorth iechyd cywir;
- roedd plant yn methu â mynychu apwyntiad am eu bod wedi symud cartref;
- roedd bylchau yn y cofnodion o'u hanes meddygol teuluol a phersonol.

Roedd gwasanaethau a oedd â mynediad at Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal, yn gwerthfawrogi hyn a'r cydberthynas cadarnhaol rhwng y plant a'r gweithwyr proffesiynol hyn. Roedd hyn yn cyfrannu at gynnal ymgysylltiad plant â gwasanaethau iechyd. Nododd nifer o ddarparwyr fod diffyg mynediad at nyrs arbenigol yn broblem. Soniodd ychydig o ddarparwyr am anawsterau wrth gofrestru plant â deintyddion a'r feddygfa leol, yn aml oherwydd arafwch wrth drosglwyddo cofnodion iechyd plentyn o'i feddyg teulu blaenorol. Tynnodd rhai darparwyr sylw at oedi wrth gael apwyntiad meddyg teulu i blant.

Roedd nifer sylweddol o ddarparwyr yn tynnu sylw at broblemau yn ymwneud â mynediad at ofal iechyd meddwl, fel Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), a mynegwyd pryder ganddynt nad oedd plant yn cael y cymorth priodol roedd ei angen i ddelio â'u hanghenion iechyd emosiynol.

### YR HYN A WELSOM MEWN AROLYGIADAU

At ei gilydd, gwelsom fod plant wedi'u cofrestru â gwasanaethau iechyd lleol a'u bod wedi cael asesiad iechyd cyfredol gan ymarferwr meddygol. Gwelsom ganlyniadau cadarnhaol hefyd lle roedd gan blant fynediad at Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal a gweithiwr cyswllt dynodedig. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol lle roedd gweithwyr allweddol yn cefnogi plant ag amrywiaeth o broblemau iechyd, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd rhywiol.

Roedd rheolwyr neu staff yn casglu gwybodaeth iechyd ar yr adeg atgyfeirio, ond nid oedd hyn cael ei chynnal yn gyson ar ôl derbyn a olygai, nad oedd anghenion iechyd newidiol plant bob amser yn cael eu nodi. Roedd hyn yn gwaethygu pan oedd plant yn symud o un ardal ddaearyddol i un arall, gan fod hyn yn gallu arwain at amharu ar y gwasanaethau iechyd roeddent wedi bod yn eu derbyn. Ar y cyfan, roedd trefniadau meddyginiaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol; fodd bynnag, lle roedd plant yn rheoli eu meddyginiaethau eu hunain, gellid gwella'r trefniadau storio.

Gwelsom dystiolaeth hefyd ei bod hi'n anodd cynnal cysylltiad plant hŷn â'r gwasanaethau iechyd. Roedd rhai darparwyr yn gweithio'n galed iawn i annog a chefnogi plant i ymgysylltu â nhw, tra bod y dull gweithredu yn llai rhagweithiol mewn gwasanaethau eraill.

Cadarnhaodd ein harolygiadau yr hyn roedd darparwyr wedi dweud wrthym am ddiffyg darpariaeth iechyd meddwl. Gwelsom oedi a phroblemau yn ymwneud â mynediad at CAMHS, gan arwain at ganlyniadau gwael i blant.

Roedd rhai gwasanaethau'n rhoi pwys mawr ar fwyta'n iach fel rhan annatod o'r gofal cyffredinol a roddir i'r plant. Yn y cartrefi hyn, roedd y plant yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio prydau bwyd, siopa a pharatoi bwyd. Roedd bwyta prydau bwyd gyda'r staff yn cynnig profiad cymdeithasol cadarnhaol. Mewn gwasanaethau eraill, gwelsom fod prydau bwyd yn cael eu cynllunio mewn ffordd ad hoc ac nad oeddent yn aml yn cael eu paratoi'n ffres, ac na roddwyd unrhyw bwysigrwydd ar arferion prydau bwyd a oedd yn dod â'r staff a'r plant at ei gilydd. Gwelsom fod angen i opsiynau ffordd o fyw iachach gael eu cofnodi'n well hefyd.

### YR HYN A DDYWEDODD Y PLANT WRTHYM

Disgrifiodd y plant sut roedd y staff yn eu helpu i gadw'n iach ac yn eu cefnogi i fynd i apwyntiadau iechyd. Dywedodd y plant hŷn fod hyn yn gallu bod yn ymwthiol weithiau. Dywedodd rhai o'r plant nad oeddent yn cael y cymorth roedd ei angen arnynt ar gyfer eu hanghenion iechyd emosiynol na gwybodaeth am iechyd rhywiol a phroblemau yn ymwneud â sylweddau.

Siaradodd plant am staff a oedd wedi gweithio'n galed i'w helpu i gael ffordd o fyw iach, ond dywedodd plant eraill nad oeddent wedi cael yr un profiad. Dywedasant hefyd eu bod yn mwynhau bwyta gyda'i gilydd am fod hyn yn rhoi ymdeimlad o fod gyda theulu iddynt.

Dywedasant wrthym eu bod o'r farn ei bod yn bwysig i gynllunio a choginio'u bwyd eu hunain fel rhan o'r broses o ddod yn fwy annibynnol, ond dywedodd rhai o'r plant fod eu mynediad i'r gegin wedi'i gyfyngu ac er eu bod yn deall y rheswm dros hyn, eu bod eisiau rhywfaint o hyblygrwydd.





**“Mae'r oergell wedi'i chloi, a'r cypyrddau hefyd."**

**“Rydym yn cynllunio bwydlenni, yn mynd i siopa am fwyd. Rwy'n gallu helpu os ydw i eisiau.”**

### ENGHREIFFTIAU O ARFER DA

- Mewn rhai gwasanaethau, mae clinigydd CAMHS yn dod i'r cyfarfodydd tîm bob yn ail fis i roi cyngor i staff ar gefnogi pobl ifanc, ac mae'r staff yn gallu cysylltu ag ef i gael cyngor.
- Mae nifer o wasanaethau'n defnyddio dull integredig o ddarparu gofal, addysg a chymorth therapiwtig i blant, sy'n helpu i sicrhau bod ffocws clir yn cael ei gadw ar eu hanghenion iechyd corfforol ac emosiynol.

### MEYSYDD I'W GWELLA A'U DATBLYGU

- Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr sicrhau gwelliannau o ran mynediad i wasanaethau iechyd gan gynnwys nyrsys arbenigol, CAMHS a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gyda'r bwrdd iechyd perthnasol yn cynnig goruchwyliaeth well o anghenion iechyd y plant.



## 4. CAIFF ANGHENION ADDYSGOL Y PLANT EU BODLONI

### YR HYN A DDYWEDODD Y DARPARWYR WRTHYM

Dywedodd y darparwyr wrthym nad yw plentyn yn cael llawer o anawsterau pan fydd modd cynnal ei leoliad addysg. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at heriau wrth sicrhau darpariaeth addysgol briodol i blant, yr oedd lleoliadau rhai ohonynt y tu allan i'r ardal neu ar draws ffiniau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- plant yn cael eu gadael heb addysg reolaidd pan fyddant yn trosglwyddo o un awdurdod i un arall;
- trefniadau ariannu ar gyfer lleoliadau 'y tu allan i'r sir' yn arwain at oedi o ran asesiadau a darpariaeth addysgol;
- diffyg mynediad neu oedi wrth gael lleoliadau addysg arbenigol i blant â phroblemau ymddygiadol neu emosiynol;
- rolau a chyfrifoldebau cydgysylltwyr addysg plant sy'n derbyn gofal awdurdodau lleol yn amrywio o un awdurdod i'r llall.

Roedd rhai darparwyr o'r farn bod plant â phrofiad o ofal yn cael eu trin yn wahanol gan rai ysgolion, gan eu gwahardd heb reswm dilys a heb lythyr ysgrifenedig. Dywedodd y darparwyr fod hyn yn arwain at fethu â datblygu strategaethau i gynnal eu haddysg. Dywedodd un darparwr wrthym: "*Roedd un person ifanc heb bod yn yr ysgol ers dwy flynedd. Roeddent yn derbyn addysg cartref am ddwy awr bob wythnos.*"

### WHAT WE FOUND AT INSPECTIONS

Gwelsom ddarlun cymysg o ran addysg plant, gan adlewyrchu'r materion a godwyd gan ddarparwyr. Roedd rhai o'r plant yn mynychu ysgolion prif ffrwd, ac eraill yn mynychu ysgol annibynnol a ddarparwyd yn uniongyrchol gan y gwasanaeth. Roedd rhai enghreifftiau da iawn o blant yn cael eu cefnogi'n dda yn eu haddysg. Roedd plant eraill, a oedd wedi bod allan o addysg am gyfnodau estynedig, wedi ail-gysylltu ag addysg, gan fagu hyder yn eu gallu i ddysgu a oedd yn gwella eu canlyniadau llesiant cyffredinol. Cyfarfuom hefyd â phlant nad oeddent yn ymgysylltu ag addysg o unrhyw fath.

Mewn gwasanaethau lle roedd ysgol annibynnol, gwelsom fod plant, ar y cyfan, yn ymgysylltu â'r cwricwlwm a ddarparwyd. Ceir rhagor o fanylion am ansawdd y ddarpariaeth hon yn adroddiad Estyn yn Atodiad 3.

Gwelsom fod rhai o'r plant wedi bod allan o addysg am gyfnodau estynedig, a oedd yn adlewyrchu pryderon rhai darparwyr nad oedd trefniadau ar gyfer addysg plant yn cael eu cytuno gan yr awdurdod lleoli cyn i'r lleoliad ddechrau. Yn yr achosion hyn, gwelsom fod y plant yn treulio cyfnodau hir o'r diwrnod heb unrhyw beth cadarnhaol i'w cadw'n brysur, a'u bod yn aml yn aros yn y gwely yn hwyr yn y bore. Nododd arolygwyr fod diffygion mewn rhai awdurdodau lleoli wrth sicrhau bod gan blant Gynllun Addysg Personol ar waith.

Yn aml roedd diffyg parhad mewn darpariaeth addysgol yn ffactor arwyddocaol a oedd yn tarfu ar leoliadau plant am ei fod yn golygu nad oedd ganddynt drefn ddyddiol, strwythur na ffiniau, a oedd yn tanseilio eu llesiant cyffredinol. Er bod rhai gwasanaethau wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o rannu'r pryderon hyn â'r awdurdod lleoli, roedd yn destun pryder gweld bod gwasanaethau eraill yn derbyn y sefyllfa hon.

### YR HYN A DDYWEDODD Y PLANT WRTHYM

Dywedodd plant wrthym am eu gwahanol brofiadau o fod yn yr ysgol. Dywedodd rhai o'r plant wrthym fod ysgol yn bwysig iddynt, yn enwedig os oeddent mewn ysgol prif ffrwd gan fod hyn yn gwneud iddynt deimlo'n 'normal' a'u bod yn hoffi cymysgu â'u cymheiriaid. Roedd yn amlwg bod rhai o'r plant yn teimlo'n falch o'u cyflawniadau ac yn priodoli hyn i'r gefnogaeth a gawsant yn y cartref a'r ysgol.

Dywedodd plant eraill wrthym yr amharwyd ar eu haddysg, gan ddisgrifio'r effaith negyddol roedd hyn wedi'i chael ar eu bywydau ac nad oeddent yn deall beth oedd yr anawsterau. Roedd eraill wedi ymddieithrio cymaint o addysg fel nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau.

**"Mae fy ysgol yn bwysig i fi."**

**"Rwy'n falch fy mod yn mynd i'r brifysgol, rwyf wedi gweithio'n galed."**

### ENGHREIFFTIAU O ARFER DA

- Mewn rhai gwasanaethau, gwelsom berthynas waith dda rhwng y cartref a'r ysgol, gan gynnwys cynllunio ar y cyd, er mwyn galluogi plant i gyflawni eu potensial.
- Mae rhai gwasanaethau'n gweithredu dull integredig o ddarparu gofal ac addysg, gyda chwricwlwm 24 awr, sy'n sicrhau bod y dull cyffredinol o ddarparu'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad addysgol y plant.

### MEYSYDD I'W GWELLA A'U DATBLYGU

- Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod plant yn derbyn eu hawl i addysg a dylid datblygu strategaethau aml-asiantaeth er mwyn sicrhau bod cyn lleied o oedi â phosibl wrth gael gafael ar addysg.
- Mae angen i awdurdodau lleol a darparwyr sicrhau bod gan blant Gynllun Addysg Personol cyfredol a'i fod yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd.



## 5. CAIFF ANGHENION CYMDEITHASOL A HAMDDEN Y PLANT EU DIWALLU

### YR HYN A DDYWEDODD Y DARPARWYR WRTHYM

Ar y cyfan, roedd darparwyr yn deall pwysigrwydd cefnogi'r plant i fanteisio ar gyfleoedd cymdeithasol a hamdden fel rhan o ddatblygiad y plentyn.

Gwnaethant nodi'r canlynol fel rhai o'r rhwystrau i gefnogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden.

- Mewn rhai achosion, roedd lefelau staffio yn golygu bod angen i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp gyda phlant eraill sy'n byw yn y cartref yn hytrach na gweithgareddau unigol.
- Soniodd ychydig o ddarparwyr am heriau wrth gymell staff i gefnogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r cartref, neu wrth oresgyn pryderon staff am wneud hyn.
- Roedd rhai awdurdodau lleol yn gyndyn o roi caniatâd i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau cymunedol, am fod rhai o'r plant yn cymryd risgiau a bod yr ymddygiadau hyn yn peri i'r plant gael eu hynysu fwy fyth.

### YR HYN A WELSOM MEWN AROLYGIADAU

Ar y cyfan, darperir amrywiaeth eang o brofiadau i blant, gan gynnwys bod yn rhan o dimau chwaraeon lleol, dringo creigiau, plymio tanddwr, gwyliau tramor a chefnogi ffrindiau i ddod draw am de. Gwelsom hefyd fod plant yn cael eu cefnogi mewn amrywiaeth o ffyrdd i chwarae rhan weithredol yn y gymuned, drwy fynd i'r clwb ieuenctid lleol, gwirfoddoli a gweithio mewn cyfleusterau lleol.

Roedd nifer o gartrefi'n darparu gofal drwy fodel a oedd yn seiliedig ar weithgareddau, a oedd ag agwedd gadarnhaol at reoli risgiau. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddysgu sut i gadw eu hunain yn ddiogel, tra byddant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau.

Gwelsom ymrwymiad gwirioneddol i sicrhau bod plant yn treulio'u hamser hamdden mewn ffordd gadarnhaol. At ei gilydd, roedd y plant yn cael canlyniadau cadarnhaol, ac roedd eu sgiliau cymdeithasol yn gwella a oedd yn cyfrannu'n sylweddol at eu llesiant emosiynol cyffredinol.

### YR HYN A DDYWEDODD Y PLANT WRTHYM

Cododd plant bryderon ynghylch peidio â chael yr un cyfleoedd â phlant nad ydynt mewn gofal, ac roedd hyn yn gwneud iddynt deimlo'n fwy ynysig. Dywedodd rhai o'r plant wrthym na allent ymuno â rhai gweithgareddau oherwydd cyfyngiadau a roddwyd arnynt gan yr awdurdodau lleoli.

Fodd bynnag, soniodd plant hefyd am rai cyfleoedd cadarnhaol iawn roeddent wedi'u cael, gan wneud iddynt deimlo eu bod wedi cael cyfleoedd rhagorol i gymryd rhan mewn gweithgareddau roeddent yn eu mwynhau.

Gwnaethant ddweud cymaint yr oedd y staff yn ei wneud i'w cefnogi, a bod digwyddiadau arbennig fel penblwyddi yn cael eu dathlu. Roeddent yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned ac yn y cartref. Roedd y prydau tecawê ar nos Wener yn arbennig o boblogaidd.

At ei gilydd, dywedodd y plant fod ganddynt ddigon o arian i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis.

**"Rwy'n cael cynllunio fy ngweithgareddau ar gyfer yr wythnos ac mae hyn yn cynnwys amser rhydd yn ogystal â gweithgareddau yn y tŷ"**

**"Rwy'n chwarae rygbi i'r tîm lleol ac yn mynd i'r Sgowtiaid"**

**ENGHREIFFTIAU O ARFER DA**

- Mae nifer o wasanaethau'n mynd ati i hyrwyddo hobïau a diddordebau allanol y plant, gan gynnwys y rheini a oedd ganddynt cyn byw yn y cartref, gyda staff ychwanegol yn gweithio i'w hwyluso.

**MEYSYDD I'W GWELLA A'U DATBLYGU**

- Dylai awdurdodau lleol a darparwyr gydweithio i rannu a rheoli risgiau er mwyn osgoi rhoi cyfyngiadau ar allu pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau.



## 6. MAE'R PLANT YN CAEL GOFAL A CHYMORTH O ANSAWDD DA

### YR HYN A DDYWEDODD Y DARPARWYR WRTHYM

Roedd y mwyafrif o'r darparwyr yn amlygu pwysigrwydd cydweithio â'r awdurdod lleoli a phobl berthnasol eraill ym mywydau'r plant.

Nododd nifer o'r darparwyr ei bod yn bwysig gallu cefnogi anghenion plant drwy amrywiaeth o wasanaethau yn y cartref, gan gynnwys therapi ac addysg. Fodd bynnag, amlygwyd bod rhai awdurdodau lleol yn gyndyn o roi caniatâd i'r plentyn dderbyn y gwasanaethau mewnol hyn.

Dywedodd rhai o'r darparwyr fod sicrhau bod y plant yn derbyn y gofal gorau posibl gan dîm o staff cymwys a medrus yn hanfodol wrth sicrhau bod y plant yn cyflawni canlyniadau da.

Roedd rhai o'r darparwyr yn cydnabod gwerth rhoi modelau gofal ar waith lle mae'r staff yn hyfforddedig ac yn fedrus; yn deall effaith trawma bywyd cynnar ar allu'r plant i greu cydberthnasau diogel; a oedd yn arwain at welliannau yn y gofal a'r cymorth a roddir i ddiwallu'r anghenion cymhleth hyn.

Nodwyd materion allweddol ganddynt sy'n effeithio ar eu gallu i ddarparu'r gofal a'r cymorth o'r ansawdd gorau, a oedd yn cynnwys diffyg mynediad at wasanaethau iechyd ac addysg, neu oedi wrth wneud hynny, a diffyg gwasanaethau arbenigol lleol.

### YR HYN A WELSOM MEWN AROLYGIADAU

Lle roedd gwasanaethau'n gweithredu o fewn model gofal clir a chydlynus, gwelwyd bod y plant yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni eu canlyniadau llesiant. Gwelsom rai enghreifftiau cadarnhaol iawn lle roedd y darparwyr wedi llwyddo i integreiddio gwasanaethau gofal, addysg a therapi. Yn y gwasanaethau hyn, gwelsom fod y plant, at ei gilydd, yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial a bod cydberthnasau sicr rhyngddynt a'r staff. Mewn rhai gwasanaethau, roedd y staff wedi cael eu hyfforddi'n dda i ymdrin ag amrywiaeth o anghenion cymhleth plant, gan gynnwys camfanteisio rhywiol, ymddygiadau rhywiol niweidiol a hunan-niweidio.

Gwelsom enghreifftiau lle roedd darparwyr wedi defnyddio ffyrdd creadigol o gefnogi'r plant i gyflawni eu nodau a'u dyheadau, gyda systemau effeithiol i sicrhau bod y plant yn ymgysylltu â'u gofal ac yn gwneud cynnydd da o ran eu hanghenion cyffredinol. Mewn rhai gwasanaethau lle nad oeddent yn darparu therapi ac addysg, roeddent yn cydweithio'n agos ag asiantaethau partner i gydlynu elfennau gwahanol y cymorth a roddwyd i'r plant.

Roedd rhai o'r gwasanaethau'n cyflogi therapyddion. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid oedd y therapyddion hyn yn rhoi cymorth uniongyrchol i'r plant. Byddai'r therapydd yn mynychu cyfarfodydd staff ac yn rhoi cyngor i'r tîm staff ar gyfnodau penodol yn hytrach na rhyngweithio'n uniongyrchol â'r plant. Roedd hyn yn destun pryder penodol yn achos plant ag anghenion cymhleth, lle gwelsom dystiolaeth o effaith ar eu llesiant.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r gwasanaethau fodel rheoli ymddygiad y cytunwyd arno, ac at ei gilydd, roedd hyn yn canolbwyntio ar ddulliau ymddygiad cadarnhaol, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol. Gwelsom fod cynlluniau ymddygiad unigol ar waith i blant mewn nifer o wasanaethau, ac roedd y plant wedi bod yn ymwneud â'r gwaith o'u datblygu.  Yn y mwyafrif o'r gwasanaethau, gwelsom fod y staff yn modelu safonau ymddygiad da i'r plant, ac at ei gilydd, gwelsom fod cosbau'n cael eu cymhwyso mewn ffordd deg ac mewn cytundeb â'r plant, y rheini a/neu'r awdurdod lleoli lleol.

Gwelsom nifer o wasanaethau lle roedd ymyriadau corfforol yn cael eu defnyddio'n amlach. Priodolwyd hyn yn aml i'r ffaith bod gan y plant anghenion mwy cymhleth a gallu'r staff i'w rheoli'n briodol. Mewn rhai gwasanaethau, gwelsom fod ymyriadau corfforol yn cael eu defnyddio gan aelodau o'r staff nad oeddent wedi cael yr hyfforddiant priodol, gan roi'r plant, a'r aelodau o staff eu hunain, mewn perygl. Nid oedd ychwaith yn glir sut roedd yr awdurdod lleol yn monitro hyn drwy'r gweithiwr cymdeithasol neu'r swyddog adolygu annibynnol.

### YR HYN A DDYWEDODD Y PLANT WRTHYM

Cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol iawn gan y plant am y gofal a'r cymorth a gawsant, a gwnaethant ddweud wrthym fod eu gweithiwr cymdeithasol yn aml yn allweddol yn hyn o beth.  Roeddent yn gwerthfawrogi'r cydberthnasau cadarnhaol roeddent wedi'u meithrin â phlant eraill â phrofiad o ofal.  Dywedodd y plant wrthym fod parhad cydberthnasau â staff a phlant eraill yn bwysig iddynt, yn enwedig i'r rheini a oedd wedi cael profiad o darfu ar eu lleoliadau.

**“Dwi byth ar fy mhen fy hun”**

**“Gallaf fod gyda phlant eraill”**

**“Rwyf wrth fy modd mewn gofal preswyl”**

**“Rwy'n teimlo'n ddiogel gyda'r staff, maen nhw'n tawelu fy meddwl”**

**“Y peth da am y cartref yw bod gennych chi bobl sy'n eich cefnogi”**

Dywedodd dau blentyn wrthym am deimladau o ansicrwydd a newidiadau yn y cartrefi a oedd wedi effeithio arnynt.

**“Rwyf wedi gweld gormod o bobl yn mynd a dod - 5 staff a 12 o blant dros gyfnod o ychydig flynyddoedd, felly mae'n anodd creu cydberthnasau"**

**“Ar y dechrau, doeddwn i ddim wedi setlo yn fy mywyd teuluol ac mae'r staff fan hyn wedi fy nghefnogi drwy bob penderfyniad anodd a wnaed ac wedi mynd yr ail filltir o ran fy ngofal yma.”**

Trafododd rhai o'r plant y cymorth therapiwtig a gawsant.

**“Y therapi yw'r peth gorau am fyw mewn gofal preswyl”**

**“Siarad am fy nheimladau a pheidio cadw'r cyfan mewn”**

### ENGHRAIFFT O ARFER DA

- Lle roedd gwasanaethau'n rhoi model cydlynol o ofal ar waith, fel ‘Camau Nesaf’ gwelsom fod y plant yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni eu canlyniadau llesiant.

### MEYSYDD I'W GWELLA A'U DATBLYGU

- Dylai'r darparwyr nad ydynt yn darparu gofal i blant drwy fodel cydnabyddedig, sy'n seiliedig ar ymchwil dda, adolygu'r arferion presennol a ddefnyddir ganddynt o fewn y gwasanaeth.
- Mae'n rhaid i ddarparwyr ddatblygu dulliau o reoli ymddygiad sy'n cynnwys pwyslais cryf ar atal a dad-ddwysâd. Mae'n rhaid i bob aelod o staff gael hyfforddiant ar ddulliau priodol o atal corfforol.
- Dylai awdurdodau lleoli a darparwyr gydweithio i sicrhau goruchwyliaeth well o anghenion ymddygiadol plant a'u hymddygiadau sy'n cynnwys cymryd risgiau,  sicrhau bod mesurau rhagweithiol ar waith pan fo tystiolaeth yn dangos nad yw'r lleoliad yn diwallu anghenion y plant.



## 7. CAIFF Y PLANT EU CEFNOGI I GYRRAEDD EU POTENSIAL

### YR HYN A DDYWEDODD Y DARPARWYR WRTHYM

Disgrifiodd y darparwyd pa mor bwysig yw canolbwyntio ar anghenion datblygiadol y plant a'r cynnydd a wnânt drwy gydol y lleoliad er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial. Cydnabuwyd pwysigrwydd gweithio'n unol â model gofal, ac roedd nifer o wasanaethau'n defnyddio rhaglenni fel 'Camau Nesaf' i gefnogi'r plant i dderbyn y gofal a'r cymorth mwyaf priodol.

Tynnodd y darparwyr sylw at bwysigrwydd cefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, eu cyfrifoldeb cymdeithasol ac i gymryd rhan yn y gymuned leol fel ffactor pwysig sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant, a datblygu eu hunan-barch. Roedd hyn yn cysylltu â'r gwaith o'u paratoi ar gyfer symud ymlaen ac mae gan nifer o ddarparwyr raglenni byw'n annibynnol. Ystyriwyd paratoi plant ar gyfer dod yn oedolion yn faes allweddol mewn gwasanaethau seibiannau byr. Dywedodd nifer o ddarparwyr wrthym eu bod yn diweddaru eu prosesau cynllunio gofal er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau, gan ddisgrifio pwysigrwydd cynnwys y plant yn y gwaith o bennu eu nodau.

Dywedodd y darparwyr wrthym nad oedd y plant bob amser yn cyrraedd eu llawn botensial oherwydd y canlynol:

- roedd cynllunio hirdymor yn gyfyngedig, mewn rhai achosion am fod cynlluniau gofal a chymorth yr awdurdodau lleoli yn seiliedig ar nodau byrdymor;
- roedd penderfyniadau awdurdodau lleoli yn aml yn seiliedig ar adnoddau yn hytrach nag anghenion y plant;
- nid oedd penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud i blant a oedd yn agosáu at oedran gadael gofal, ac roedd plant yn disgrifio teimlo eu bod yn mynd yn angof am nad oedd penderfyniadau wedi cael eu gwneud;
- weithiau, nid yw'r plant eisiau bod yn y lleoliad am eu bod wedi cael profiadau o symud lleoliadau sydd wedi creu anawsterau wrth eu cymell i ymgysylltu ag unrhyw raglen o ofal a/neu addysg;
- mae rhai plant wedi dioddef trawma ac esgeulustod sylweddol ac o ganlyniad, nid ydynt yn credu eu bod yn haeddu cael byw mewn cartref “gweddus neu gynaliadwy” neu nad oes ganddynt yr hawl i hynny.

### YR HYN A WELSOM MEWN AROLYGIADAU

Mewn gwasanaethau lle darperir gofal cyfannol, gwelsom fod hyn ar y cyfan yn cael effaith gadarnhaol, gyda'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at eu nodau. Gwelsom fod hanes plant, a nifer yr achosion o chwalu lleoliadau roeddent wedi'u profi, yn rhwystr parhaus i blant. Yn aml, roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd iddynt ymgysylltu â gwasanaethau, ac roedd hyn yn peryglu eu llesiant. Mewn gwasanaethau lle roedd y gofal yn cael ei ddarparu ochr yn ochr ag addysg a chymorth therapiwtig, roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r plant yn gwneud cynnydd da, yn cyrraedd eu potensial ac yn cyflawni canlyniadau da.

Roedd gan nifer o wasanaethau fodelau gofal i gefnogi'r cyfnod pontio rhwng bod yn blentyn a bod yn oedolyn ac, at ei gilydd, gwelsom fod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Nid oedd cynlluniau llwybr awdurdodau lleol bob amser yn cysylltu â chynlluniau personol, ac mewn rhai achosion, roedd hyn o ganlyniad i oedi wrth i'r awdurdodau lleoli wneud penderfyniadau am ddyfodol y plentyn.

### YR HYN A DDYWEDODD Y PLANT WRTHYM

Siaradodd y plant am eu hawydd i gael cymorth i symud ymlaen. Disgrifiodd un plentyn y ffordd y cafodd ei gefnogi i wneud cais i ymuno â'r lluoedd arfog gan aelod o'r staff a ddaeth i'r gwaith ar ei ddiwrnod bant i fynd ag ef am gyfweliad. Dywedodd fod y daith i ddod yn fwy annibynnol yn broses raddol, cam wrth gam, a soniodd am bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth â'r staff, a sut y mae hyn yn cyfrannu at ei lefel o annibyniaeth.

- “Mae'n rhywbeth graddol - rwyt ti'n ei ennill ac yna rwyt ti'n ei ennill heb oruchwyliaeth... ar y bws gyda'r staff, yna ar y bws ar dy ben dy hun, ac yna symudedd arferol”
- “Rwyf am aros yma ychydig yn hirach wrth i fi gael swydd newydd ac rwyf eisiau symud yn ofalus a pheidio â brysio”
- “Rwyt ti'n meithrin ymddiriedaeth â phobl... Wrth i ti ennill ymddiriedaeth, rwyt ti'n cael mwy ohoni - fel mynd ar y trên ar dy ben dy hun”
- “Mae'r staff yn orofalus pan ddaw at gyfrifiaduron”
- “Rwyf wedi dod o fod yn fachgen bach 9 mlwydd oed i berson ifanc mawr 16 oed”
- “Rwy'n cael mynd i'r dref ar fy mhen fy hun”
- “Rwy'n cael amser rhydd”
- “Rwy'n teimlo'n hyderus.”

Siaradodd y plant am bwysigrwydd eu gweithwyr allweddol wrth eu helpu i gyflawni eu nodau.

**“Mae'n dda cael gweithiwr allweddol: mae'n gofyn a ydw i'n iawn ac yn fy helpu i gael y pethau ymarferol sydd eu hangen arnaf.”**

### ENGHREIFFTIAU O ARFER DA

- Cartrefi gofal sy'n rhoi pwys mawr ar sicrhau parhad cydberthnasau i blant, â'r staff a phlant eraill, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch y naill at y llall, wedi'i gefnogi gan system gweithiwr allweddol effeithiol.
- Cartrefi gofal sy'n modelu dulliau ymddygiad cadarnhaol lle caiff plant eu gwerthfawrogi a'u parchu, gan gydnabod eu hanghenion unigryw a'u cryfderau.

### MEYSYDD I'W GWELLA A'U DATBLYGU

- Dylai darparwyr nad ydynt yn darparu rhaglenni byw'n annibynnol ystyried sut maent yn cefnogi sgiliau annibyniaeth plant, a'u datblygiad i fod yn oedolion.
- Mae angen i ddarparwyr a staff roi mwy o bwys ar ddatblygu cydberthnasau magwrus, llawn ymddiriedaeth â'r plant.



## 8. MAE'R PLANT YN TEIMLO'N DDIOGEL AC WEDI'U HAMDDIFFYN RHAG NIWED

### YR HYN A DDYWEDODD Y DARPARWYR WRTHYM

Cydnabuwyd proses dderbyn drylwyr fel ffactor hanfodol wrth gadw plant yn ddiogel, gan ei gwneud yn bosibl i nodi unrhyw risgiau posibl ar adeg derbyn y lleoliad fel bod modd gwneud gwaith cynllunio priodol.

Amlygodd darparwyr feysydd allweddol i sicrhau bod plant yn ddiogel gan cynnwys:

- proses dderbyn sy'n ei gwneud yn bosibl i gynllunio'r amrywiaeth wahanol o anghenion sydd gan y plant a leolir yn y cartrefi, a tharo cydbwysedd rhyngddynt;
- asesiadau risg a gweithio gyda'r plant i ddatblygu cynlluniau diogelwch unigol, gan daro cydbwysedd rhwng annibyniaeth y plant ag unrhyw risgiau posibl;
- grŵp o staff cadarn, medrus a phrofiadol;
- cydberthnasau â swyddogion yr heddlu lleol a thimau plant coll yn cydweithio i gefnogi plant a lliniaru risgiau, a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng asiantaethau;
- cefnogi pant i fod yn ymwybodol o'u diogelwch personol a'r risgiau posibl y gallent eu hwynebu yn y gymuned, a'u deall.

### YR HYN A WELSOM MEWN AROLYGIADAU

At ei gilydd, roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith ac roedd tystiolaeth i gefnogi ymatebion priodol i bryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant. Ar y cyfan, roedd gwasanaethau yn darparu hyfforddiant diogelu i staff, ond yn aml roedd hyn ar lefel sylfaenol ac nid oedd dealltwriaeth y staff o gymhlethdodau rhai o ymddygiadau peryglus y plant bob amser yn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu'n briodol. Mewn rhai gwasanaethau, roedd angen asesiadau risg mwy rhagweithiol er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn rheoli risgiau ac ymddygiadau'n gyson er mwyn diogelu plant yn well. Mewn gwasanaethau lle roedd plant yn wynebu risg o Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) neu Linellau Cyffuriau, roedd asesiadau Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF) ar waith. Fodd bynnag, mewn rhai gwasanaethau, gwelsom nad oedd y rhain yn cyd-fynd â chynlluniau personol plant ac nad oeddent, ar brydiau, yn darparu mesurau diogelu effeithiol i'r plant dan sylw. Mewn rhai cartrefi, roedd ymddygiad rhai o'r plant wedi effeithio'n andwyol ar lesiant plant eraill a'u gallu i deimlo'n ddiogel yn y cartref.

Mae atal a monitro plant sy'n mynd ar goll o ofal yn faes sydd angen ei wella. Gwelsom rai gwasanaethau'n gweithredu mewn ffordd ragweithiol ac ymatebol, ac eraill lle gallai'r camau lliniaru fod wedi cael eu hystyried yn well. Gwelsom fod angen gwella trefniadau rhwng darparwyr, awdurdodau lleoli, yr awdurdodau lle mae'r plant wedi'u lleoli a'r heddlu, i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n briodol. Roedd yn destun pryder na welsom dystiolaeth i gadarnhau bod awdurdodau lleol yn ystyried y risg o blentyn yn mynd ar goll fel mater o drefn wrth gynnal adolygiadau. Fodd bynnag, gwelsom sefyllfaoedd hefyd lle roedd y staff wedi gweithio'n galed gyda'r plant i leihau'r risg. Yn benodol, gwelsom achosion lle byddai plant yn dianc o'r cartref pan oeddent yn newydd i'r gwasanaeth, ond wrth iddynt feithrin cydberthynas â'r staff yn raddol, a dysgu am y gwasanaeth, y byddai hyn yn lleihau.

Mae'n destun pryder gweld bod lefel uwch o ymddygiad troseddol ymhlith plant mewn rhai cartrefi, gan adleisio canfyddiadau adolygiad Laming "In Care, Out of Trouble" (2016). Gwelsom gynnydd mewn rhybuddion neu gyhuddiadau gan yr heddlu, yn enwedig ar gyfer ymosodiadau corfforol, yn aml yn erbyn staff, a difrod troseddol, yn y cartref yn bennaf. Gwelsom amrywiaethau rhwng ardaloedd daearyddol a gwasanaethau.

### YR HYN A DDYWEDODD PLANT WRTHYM

Dywedodd rhai o'r plant wrthym eu bod yn teimlo eu bod y cael eu cefnogi i ddeall eu hunain a'u hymddygiadau, yn ogystal â chael yr adnoddau er mwyn osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd nad ydynt eisiau bod ynddynt. Ar y cyfan, roeddent yn teimlo bod y rheolau'n deg ac er nad oeddent yn hoff o'r canlyniadau, ar brydiau, roeddent yn deall ac yn cydnabod bod hyn yn cael ei wneud er eu lles nhw.

Dywedodd y mwyafrif ohonynt eu bod yn teimlo bod y staff yn eu cefnogi i aros yn ddiogel. Fodd bynnag, ni ddwedodd pob un ohonynt eu bod bob amser yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref.

**"Rwy'n meddwl bod y staff yn gwybod sut i amddiffyn y plant yn dda ac yn gwybod sut i ofalu amdanynt"**

**"Mae'r staff yn garedig ac eisiau'r gorau i fi"**

**"Mae'r staff yn hwyliog ac yn ofalgar ac rwy'n teimlo'n ddiogel yma, ac maen nhw'n gwybod beth i'w wneud pan na allaf reoli fy nheimladau ac rwy'n teimlo'n ddiogel fel hyn."**



### ENGHREIFFTIAU O ARFER DA

- Gwasanaeth a oedd yn defnyddio ymwybyddiaeth ofalgar fel strategaeth i gadw'r plant ac eraill yn ddiogel. Defnyddir ymarferion rheoli dicter, hunanleddfu ac ymarferion myfyriol gyda'r plant i'w cefnogi i aros yn ddiogel.
- Mae nifer o ddarparwyr wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r heddlu lleol i gefnogi'r cartref i weithio gyda phlant sy'n cymryd risgiau, ac mae ganddynt Genhadon Camfanteisio'n Rhywiol ar blant o fewn y timau staff.

### MEYSYDD I'W GWELLA A'U DATBLYGU

- Dylai awdurdodau lleoli a darparwyr adolygu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â throthwyon ar gyfer rhoi gwybod am blant sydd ar goll, gan sicrhau bod y rhain yn gyson â chanllawiau ac nad ydynt yn rhoi plant mewn mwy o berygl diangen o gael eu niweidio, gan gynnwys cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol.
- Mae darparwyr, awdurdodau lleol a'r heddlu yn datblygu dull gweithredu aml-asiantaeth i leihau achosion o weithgarwch troseddol ymhlith plant.

## 9. CAIFF HAWLIAU'R PLANT EU HYRWYDDO'N RHAGWEITHIOL

### YR HYN A DDYWEDODD Y DARPARWYR WRTHYM

Roedd y darparwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran sicrhau y caiff hawliau plant eu parchu yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Nodwyd ganddynt bwysigrwydd darparu gwybodaeth i blant er mwyn iddynt allu cael gwybod am eu hawliau mewn ffordd ragweithiol, gwneud penderfyniadau am eu bywydau a, phan nad yw pethau'n mynd yn dda, â phwy y dylent gysylltu i drafod y peth. Siaradwyd am bwysigrwydd rôl y gweithiwr allweddol wrth hwyluso hawliau plant a'r rôl sydd ganddynt wrth eirioli ar ran plant. Fe wnaethant bwysleisio pwysigrwydd sut mae staff yn cefnogi plant i sicrhau y caiff eu barn ei hystyried mewn llawer o sefyllfaoedd, gan gynnwys adolygiadau statudol.

Disgrifiodd rhai darparwyr fentrau newydd, megis cynnwys plant ar baneli cyfweld ar gyfer penodi staff a chynnal paneli plant fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd a datblygu'r gwasanaeth. Roedd eraill yn darparu sesiynau gwybodaeth i blant ar eu hawliau, gan ddod â phobl i mewn i siarad am y gwasanaethau sydd ar gael.

Trafododd darparwyr rai o'r rhwystrau i hyrwyddo hawliau plant, gan gynnwys taro cydbwysedd rhwng awydd y plant i gael mwy o ryddid yn y gymuned, a'u dealltwriaeth wael o'u hymddygiadau 'peryglus' eu hunain.

### YR HYN A WELSOM MEWN AROLYGIADAU

Roedd y mwyafrif o'r gwasanaethau yn hyrwyddo hawliau plant ac roedd y model o ofal yn cynnwys plant mewn modd rhagweithiol.

Gwnaethom siarad â phlant a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'u hawliau, gan gynnwys sut i gwyno a gwelsom enghreifftiau da lle cafodd plant eu cefnogi i wneud cwyn a cheisio cymorth gan wasanaethau eirioli. Mewn rhai gwasanaethau, gwelsom fod y trefniadau ar gyfer cymorth eiriolaeth i rai plant yn dda, a chafwyd ymweliadau rheolaidd gan Tros Gynnal, a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS). Fodd bynnag, roedd nifer o blant nad oeddent yn derbyn cymorth eiriolaeth am amrywiaeth o resymau gan gynnwys y canlynol: nid oeddent yn ymwybodol o'r trefniadau eiriolaeth; roeddent wedi gwrthod y cymorth; neu nid oeddent yn gwybod yn glir pa drefniadau oedd ar waith.

Mae'r adroddiad hwn wedi tynnu sylw at feysydd a amlygwyd eisoes lle gallai hawliau plant gael eu hyrwyddo'n well, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau am leoliadau; cynllunio ac adolygu eu gofal; mynediad at addysg a gofal iechyd. Ymhlith y meysydd eraill lle dylid gwella'r gefnogaeth i hawliau plant, mae'r canlynol:

- cael gwybodaeth am y gwasanaeth a bod yn rhan o'r gwaith o gynnal y cartref;
- cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden y mae plant eraill yn cymryd rhan ynddynt, y cyfyngwyd arnynt ar hyn o bryd gan bryderon am iechyd a diogelwch;
- cael gwybod am eu hawliau, e.e. a yw'r canllawiau i blant yn cynnwys gwybodaeth am eu hawliau, eiriolaeth a sut i gael mynediad at Gomisiynydd Plant Cymru.

### YR HYN A DDYWEDODD Y PLANT WRTHYM

Dywedodd y plant ei bod yn bwysig iddynt fod pobl yn gwrando ar eu barn. At ei gilydd, teimlent fod pobl yn gwrando arnynt, ond nid oeddent bob amser yn teimlo bod ganddynt gydberthynas gadarnhaol â'r staff. Roedd hyn wedyn yn effeithio ar hyrwyddo eu hawliau. Cododd rhai o'r plant faterion yn ymwneud â'r arferion, y strwythurau a'r ffiniau a oedd ar waith yn y cartrefi. Un o'r pethau roeddent am newid yn y cartrefi oedd amser gwely. Dywedodd person ifanc 18 oed fod yr un 'rheol' yn gymwys i bawb yn y cartref ni waeth beth oedd eu hoedran, a bod disgwyl iddynt fod yn eu hystafelloedd erbyn 9:30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener ac erbyn 10yp ar y penwythnos.

**"Yn ein cartref ni, mae'r amser gwely yn amrywio gan ddibynnu ar eich oedran. 8:30yp i blant sy'n 13 oed, 8:45yp os ydych chi'n 14. Nid yw'n golygu bod yn rhaid i chi fynd i gysgu. Gallwch wylio'r teledu yn eich ystafell."**

Mynegodd plant bryderon am eu hawl i ddefnyddio technoleg, neu ffonau symudol.

- "Dydyn nhw ddim yn mynd â fy ffôn i – fi sy'n talu amdano"
- "Mae'n rhaid i eraill brynu'r rhyngrwyd gan ddefnyddio eu harian eu hunain ond rwy'n cael defnyddio wi-fi y tŷ"
- "Does gen i ddim hawl i'w gael (ffôn) oherwydd rhywbeth wnes i sbel fawr yn ôl (7/8 mis). Maen nhw'n tynnu ffonau pawb arall oddi arnynt hanner awr cyn amser gwely."

Roedd cadw cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau yn agwedd bwysig i blant o ran hyrwyddo eu hawliau. At ei gilydd, gwnaethant siarad yn gadarnhaol am y ffordd y caiff hyn ei gefnogi gan staff y cartref. Un o'r pethau anoddaf yn eu barn nhw am fyw mewn gofal preswyl oedd peidio â bod gyda'u teuluoedd.

**"Rwy'n gweld eisiau mam, rwy'n gweld eisiau mam"**

**"Peidio â gweld fy mrawd"**

**"Ar hyn o bryd, dydw i ddim yn gweld fy nheulu."**

Pwysleisiodd sawl un o'r bobl ifanc y pellteroedd ffisegol.

**"Taith 3 awr a hanner i weld fy nheulu"**

**"Mae popeth yn dda heblaw byw mor bell oddi wrth fy nheulu."**

Dywedodd y plant wrthym eu bod yn deall pwrpas eiriolaeth a sut i ofyn am eiriolwr. Cododd ambell fater yn ymwneud ag annibyniaeth yr eiriolwr, gyda rhai yn ffafrio defnyddio'r gwasanaeth a gomisiynir gan y gwasanaeth yn hytrach na darpariaeth eiriolaeth statudol yr awdurdod lleol. Dywedwyd wrthym am sefyllfa lle roedd plentyn wedi cael yr un eiriolwr ers chwe blynedd a'i fod yn bresenoldeb cyson yn ei fywyd a oedd yn tawelu ei feddwl. Fodd bynnag, clywsom hefyd am sefyllfa arall lle roedd plentyn wedi gwneud nifer o geisiadau am eiriolwr, a bod y gweithiwr cymdeithasol wedi dweud i ddechrau "nad oedd angen un arno". Dywedodd rhai o'r plant fod ganddynt gydberthynas dda â'u gweithiwr cymdeithasol ac nad oeddent eisiau eiriolwr.

Siaradodd y plant am bwysigrwydd y cydberthynas â phobl allweddol o'r sefydliad a bod hyn yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod rhywun yn gwrando arnynt. Yn achos rhai o'r plant a oedd wedi cael llawer o leoliadau, roeddent wedi cael lleoliadau yn amrywio o rai mewn cartrefi a oedd yn cael eu rhedeg gan gwmni mawr lle nad oeddent byth yn gweld y perchennog, i gartrefi a oedd yn cael eu rhedeg gan gwmni llai lle roeddent yn gweld y perchnogion yn aml.

**"Weithiau, gallant fod yn ormod fel busnes yn hytrach na chartref gofal. Welais i ddim y perchennog erioed."**

**"Rwy'n cael cinio gyda'r perchennog bob dydd."**

### ENGHREIFFTIAU O ARFER DA

- Cartrefi gofal sy'n cefnogi plant i ymwneud â Senedd Ieuenctid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Darparwyr sy'n mynd ati'n benodol i ddefnyddio dull o ofal sy'n seiliedig ar hawliau.

### MEYSYDD I'W GWELLA A'U DATBLYGU

- Dylai darparwyr ac awdurdodau lleoli sicrhau bod trefniadau eiriolaeth yn cael eu hyrwyddo'n dda er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal, gan gynnwys plant anabl.



## 10. MAE'R PLANT YN BYW MEWN AMGYLCHEDD CYNNES, DIOGEL A MAGWRUS

### YR HYN A DDYWEDODD Y DARPARWYR WRTHYM

Roedd yn amlwg bod llawer o ddarparwyr yn deall arwyddocâd yr amgylchedd fel rhan o'u model o ofal, ei bwysigrwydd wrth ddarparu model therapiwtig a'i fod yn agwedd hanfodol ar sicrhau cysylltiadau i blant. Pwysleisiwyd ei bwysigrwydd yn arbennig gan y gwasanaethau hynny a ddarparwyd i blant anabl, yn arbennig plant ag awtistiaeth.

### YR HYN A WELSOM MEWN AROLYGIADAU

Ym mhob gwasanaeth, bron, gwelsom eu bod yn darparu amgylchedd cynnes, cyfforddus a hygyrch i'r plant, gyda'r llety wedi'i ddodrefnu a'i gynnal a'i gadw'n briodol. Mewn gwasanaethau i blant anabl, rhoddwyd ystyriaeth i'w hanghenion.

Roedd y plant yn cael eu hannog i helpu i lanhau eu hystafelloedd eu hunain ac, at ei gilydd, cawsant eu cefnogi i bersonoli eu hystafelloedd gwely. Cawsai hunaniaethau a diddordebau unigol eu hadlewyrchu mewn rhannau eraill o'r cartrefi, a chawsai eu hawliau i breifatrwydd eu hyrwyddo hefyd. Gallent ddefnyddio amrywiaeth o ardaloedd cymunedol, gan gynnwys cyfleusterau cegin, er bod eu mynediad wedi'i gyfyngu mewn nifer bach o achosion. Gwelsom rai achosion lle roedd ystafelloedd gwely'r plant yn cael eu cloi bob dydd ac y byddai'n rhaid i'r plant ofyn i'r staff agor eu hystafelloedd gwely.

Mewn rhai cartrefi, nodwyd pryderon am lendid, gwaith cynnal a chadw, dodrefn a gallu plant i bersonoli'r cartref. Yn aml, roedd perchnogion yr eiddo yn dylanwadu ar y sefyllfa, a gwelsom fod y sefyllfa'n waeth lle roedd eiddo wedi'u rhentu neu dan les. Yn ddiwahân, bron, roedd gwedd allanol adeiladau a'r tir o'u cwmpas mewn cyflwr da. Mewn rhai sefyllfaoedd, nid oedd y cartref wedi'i leoli mewn ardal a oedd er budd pennaf y plant. Ar brydiau, roedd hyn yn arwain at broblemau i'r plant ac weithiau i'r gymuned.

### YR HYN A DDYWEDODD Y PLANT WRTHYM

Roedd teimlo'n ddiogel a theimlo perchenogaeth yn themâu allweddol i blant o ran p'un a oeddent yn teimlo mai'r cartref oedd eu cartref. I rai o'r plant, roedd yn bwysig bod y cartref yn dawel. Yn yr un modd, roedd gallu rhoi eu stamp eu hunain ar eu hystafelloedd gwely yn eu helpu i ymgartrefu a theimlo'n ddiogel.

Siaradwyd am bwysigrwydd cael man tawel neu ddiogel lle gallent fynd pan fyddent yn teimlo dan bwysau neu'n bryderus, a dywedodd plant nad oeddent bob amser yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref.

**"Fy ystafell i" a "man tawel"**

**"Rwy'n teimlo'n ddiogel ond weithiau pan fyddaf yn clywed pethau drwg ar y newyddion sydd wedi digwydd yn fy ardal leol, mae'n gwneud i fi boeni braidd."**

**"Rwy'n gwybod sut i gadw'n ddiogel drwy wneud yn siŵr fy mod yn aros mewn grŵp mawr o bobl ac yn cyfarfod â'r bois (staff) sy'n fy nghasglu i mewn man sydd wedi'i oleuo'n dda er mwyn mynd â fi adref"**

**"Rwy'n teimlo dan fygythiad weithiau gan berson roeddwn i'n arfer ei adnabod, efallai y bydd yn ceisio dod i fy ngweld i."**

**"Rwyf wedi addurno fy ystafell sawl gwaith"**

**"Mae'n lluniau ni dros y lle"**

**"Mae gen i fywyd newydd yma, rwy'n teimlo'n ddiogel yn y cartref"**

**"Dyma fy nghartref. Rwyf wedi bod yma ers hydoedd"**

**"Hoffwn i petai'r tŷ yn cael ei baentio'n lliw gwahanol"**

**"Dwi ddim yn gwybod sut y gellid ei wella"**

**"Dwi ddim yn cael cymorth i dacluso fy ystafell wely gan fy mod yn ei dacluso fy hun"**

**"Rwyf wedi plannu planhigyn mewn rhan o'r ardd a, gyda'r tywydd fel y mae, nid yw'r garddwyr yn gofalu am y rhan honno yn dda iawn"**

**"Rwy'n hapus â'r ffordd y mae'r tŷ'n edrych o'r tu allan"**

### ENGHREIFFTIAU O ARFER DA

- Mewn nifer o wasanaethau, rhoddir ystyriaeth i'r ffordd y mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion plant anabl a'r rheiny sydd ag anghenion therapiwtig.

### MEYSYDD I'W GWELLA A'U DATBLYGU

- Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau dull rhagweithiol o wneud gwaith atgyweirio a darparu adnoddau er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i hyrwyddo canlyniadau llesiant y plant.
- Dylai darparwyr gynnal asesiad risg o'r lleoliad cyn sefydlu gwasanaeth.



## ARWAIN, RHEOLI A SICRHAU ANSAWDD

Mae arwain a rheoli effeithiol yn hanfodol er mwyn rhedeg cartref gofal i blant yn llwyddiannus, a sicrhau bod plant yn cyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae'r adolygiad wedi tynnu sylw ar rai o'r nodweddion allweddol sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r canlyniadau hynny'n llwyddiannus, gan gynnwys:

- arweinwyr a rheolwyr sy'n weladwy ac yn hygyrch i'r plant, y staff a rhan ddeiliaid allweddol eraill;
- arweinwyr a rheolwyr sydd â gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth a'r gallu i gyfleu hyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod gan y gwasanaeth ddiben clir, ac sy'n helpu'r staff i ddatblygu a chynnal ethos a model o ofal cadarnhaol;
- timau staff sydd â dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni, ar gyfer y plant ac ar y cyd â nhw, sydd ag ymrwymiad cryf i gefnogi anghenion datblygu'r plant;
- systemau effeithiol ar waith i recriwtio, sefydlu, goruchwylio a datblygu'r staff;
- polisïau a gweithdrefnau clir, hygyrch a chyfredol a threfniadau rheoli effeithiol o ddydd i ddydd i gefnogi'r ymarfer;
- systemau sicrhau ansawdd effeithiol, ymrwymiad i welliant parhaus a diwylliant sy'n agored i graffu annibynnol a her adeiladol;
- digon o adnoddau i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da.

Mewn rhai gwasanaethau, roedd ymdeimlad clir o'r gwerthoedd a'r weledigaeth yn y ffordd y cafodd y gwasanaeth ei ddisgrifio yn ei ddatganiad o ddiben ac roedd cysondeb rhwng y datganiad a'r ffordd y caiff ei reoli a'i redeg o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mewn gwasanaethau eraill, nid oedd unrhyw dystiolaeth o'r elfennau allweddol hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd gan wasanaethau brosesau cadarn ar waith i recriwtio, dewis, fetio a phenodi staff. Mae darparwyr, a'r adolygiad hwn, wedi nodi dirywiad graddol yn nifer cyffredinol y gweithwyr gofal plant preswyl cymwys. Mae hyn yn destun pryder sylweddol, yn enwedig o ystyried cymhlethdod cynyddol anghenion y plant y maent yn gweithio gyda nhw.

Gwelsom nad oedd y staff â'r sgiliau perthnasol bob amser yn gallu diwallu anghenion cyfathrebu'r plant, er enghraifft defnyddio Makaton a System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS).

**ENGHREIFFTIAU O ARFER DA**

- Trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu effeithiol sy'n ceisio barn y plant mewn ffordd ragweithiol er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio a datblygu'r gwasanaeth.

**MEYSYDD I'W GWELLA A'U DATBLYGU**

- Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant a'r rhaglen sefydlu sy'n berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau, yn arbennig y rheiny sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion plant unigol.
- Mae angen rhoi hyfforddiant ar asesu, cynllunio a'r broses adolygu i reolwyr ac ymarferwyr.
- Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod camau gweithredu prydlon yn cael eu cymryd lle bo risg o ran nifer, cymwysterau, hyfforddiant neu brofiad staff a allai syrthio o dan y lefel sydd ei hangen er mwyn darparu gwasanaeth diogel o ansawdd da.
- Mae angen i ddarparwyr sicrhau bod ganddynt systemau sicrhau ansawdd cadarn ar waith fel rhan annatod o ddatblygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r plant.









RHAN 2:

# PROFFIL Y CARTREFI GOFAL I BLANT YNG NGHYMRU

## 1. NIFER Y GWASANAETHAU CARTREFI GOFAL I BLANT YNG NGHYMRU


Mae'r data yn darparu gwybodaeth a gasglwyd ar ddwy adeg yn ystod y flwyddyn rhwng 1 Awst 2017 – 31 Gorffennaf 2018, ac ar 31 Gorffennaf 2018.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd 152 o gartrefi gofal i blant, yn darparu 681 o leoedd.

Erbyn 31 Mawrth 2019, ar ddiwedd y broses adolygu, roedd nifer y cartrefi gofal i blant wedi cynyddu i 178, gan ddarparu 774 o leoedd, a 15 o wasanaethau yn cynnig seibiannau byr dynodedig i blant.

Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 12% mewn gwasanaethau a 6% yn nifer y lleoedd ers mis Mawrth 2018 (Ffigur 1).

*Ffigur 1: Gwasanaeth cartrefi gofal i blant a lleoedd, Mawrth 2014 to Mawrth 2019*




*Ffynhonnell: Cronfa ddata AGC*

## 2. PWY SY'N DARPARU CARTREFI GOFAL I BLANT YNG NGHYMRU

*Tabl 1. Darparwyr cartrefi gofal i blant yng Nghymru ar 31 Gorffennaf 2018*

| Y math o ddarparwr | Canran y cartrefi | Canran y lleoedd |
|---|---|---|
| Sefydliadau sector gwirfoddol | 5% | 5% |
| Sefydliadau sector preifat | 81% | 78% |
| Awdurdodau lleol | 14% | 17% |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** |

*Ffynhonnell: Cronfa ddata AGC*

- Tri deg chwech o sefydliadau sector cyhoeddus yn darparu cartrefi gofal i blant yng Nghymru.
- Roedd y pedwar darparwr sector preifat mwyaf yn rheoli 28% o'r holl gartrefi gofal i blant yng Nghymru, gan ddarparu 35% o'r holl leoedd sector preifat.
- Roedd deuddeg o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn rheoli cartrefi gofal i blant yn uniongyrchol. Roedd y rhain yn darparu cyfanswm o 113 o leoedd, a 46 o leoedd ar gyfer seibiannau byr.
- Y sector gwirfoddol sy'n darparu'r mwyafrif o wasanaethau preswyl seibiannau byr.

### DARPARIAETH AWDURDODAU LLEOL


*Tabl 2. Awdurdodau lleol sy'n ddarparwyr cartrefi gofal i blant, ar 31 Gorffennaf 2018*

| Gwasanaethau | Awdurdodau lleol | Lleoedd |
|---|---|---|
| Wrecsam | 1 | 4 (4) |
| Gwynedd | 1 | 6 (6) |
| Conwy | 2 | 13 |
| Powys | 1 | 9 (7) |
| Sir Benfro | 1 | 6 (6) |
| Abertawe | 1 | 4 |
| Sir Gaerfyrddin | 3 | 13 (8) |
| Casnewydd | 3 | 16 (5) |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3 | 15 (5) |
| Rhondda Cynon Taf | 3 | 16 (5) |
| Caerffili | 1 | 5 |
| Caerdydd | 1 | 6 |
| **Cyfanswm** | **21** | **113 (46)** |

*Ffynhonnell: Hunanasesiad darparwyr. Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn nodi lleoedd a neilltuir ar gyfer seibiannau byr.*



*Ffigur 2. Cartrefi gofal i blant yn ôl maint y gwasanaeth, ar 31 Mawrth 2019*



## 3. PLANT SY'N BYW MEWN CARTREFI GOFAL YNG NGHYMRU

### PLANT SY'N DERBYN GOFAL GAN AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU

Ar 31 Mawrth 2018, roedd 6,407 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru, sef cyfradd o 102 fesul 10,000 o blant dan ddeunaw oed (Tabl 3).

*Tabl 3. Nifer y plant yng Nghymru sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2014 i 2018*

| 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| 5764 | 5613 | 5664 | 5943 | 6407 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal Ystadegau Arbrofol Ystadegau Cymru (2018): Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol, 2017-2018, 22 Tachwedd 2018, SFR 112/2018*
*Heb gynnwys plant sydd ond yn derbyn gofal ar ffurf seibiannau byr, sydd fel arfer yn byw gartref ond a gaiff eu lletya gan awdurdodau lleol drwy gyfres o gyfnodau gofal byr.*

### PLANT YNG NGHYMRU A GAIFF EU LLEOLI MEWN CARTREFI GOFAL I BLANT

*Tabl 4. Plant yng Nghymru sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl lleoliad, 2014 - 2018*

| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob lleoliad mewn 'cartrefi plant rheoleiddiedig sy'n ddarostyngedig i'r rheoliadau cartrefi plant (Codau H3 a H4)[1] | 210 | 220 | 220 | 230 | 250 |
| Pob lleoliad mewn 'cartrefi gofal preswyl' (R1)[2] | 80 | 80 | 65 | 80 | 100 |
| **Cyfanswm** | **290** | **300** | **285** | **310** | **350** |

*Ffynhonnell: Ystadegau Cymru.*



**1** Defnyddir Cod H3 ar gyfer lleoliadau ym mhob cartref plant o fewn ffin yr awdurdod lleol y mae ystyr Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 yn gymwys iddynt. Mae hyn yn cynnwys cartrefi a gynhelir, cartrefi a reolir a chartrefi cymunedol â chymorth (ac eithrio lle caiff plentyn ei roi mewn canolfan ddiogel), cartrefi sector gwirfoddol, cartrefi cofrestredig preifat ac ysgolion sydd wedi'u cofrestru fel cartrefi plant a chartrefi cofrestredig preifat (fel y'u diffinnir gan adran 1(6) o Ddeddf Safonau Gofal 2000). Defnyddir Cod H4 ar gyfer pob cartref plant y tu allan i ffin yr awdurdod lleol, wedi'i ddiffinio yn yr un modd â H3.

**2** Mae Cod R1 yn gymwys i gartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrsio sydd o fewn cwmpas Deddf Safonau Gofal 2000. Bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt fel arfer yn cynnwys elfen o ofal personol neu ofal nyrsio. Yn gyffredinol, ystyr 'gofal personol' yn yr achos hwn yw helpu'r person â gweithgareddau personol fel bwyta, ymolchi ac ati.

### PLANT SY'N DERBYN GOFAL A LEOLIR MEWN CARTREFI GOFAL I BLANT YNG NGHYMRU GAN AWDURDODAU LLEOL YN LLOEGR

*Tabl 5. Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol Lloegr ar 31 Mawrth 2014-18*

| 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| 80 | 90 | 100 | 110 | 110 |

*Ffynhonnell: Dîm Ystadegau Plant sy'n Derbyn Gofal Adran Addysg (Lloegr).*

Ar 31 Mawrth 2018, roedd cyfanswm o 435 o blant wedi'u lleoli yng Nghymru, 325 ohonynt wedi'u lleoli gan gomisiynwyr yng Nghymru a 110 gan gomisiynwyr yn Lloegr. Golyga hyn fod 25% o'r lleoliadau yng Nghymru ar 31 Mawrth 2018 wedi'u comisiynu gan awdurdodau lleol yn Lloegr.



## 4. LLEOLIAD LLEOLIADAU A'R FFORDD Y CÂNT EU COMISIYNU

*Tabl 6. Capasiti cartrefi gofal i blant o fewn ffiniau awdurdodau lleol ec eithrio seibiannau byr, a'r defnydd a wneir ohonynt, ar 31 Gorffennaf 2018*

| Awdurdod lleol | Capasiti yn ardal yr awdurdod lleol | Lleoedd a ddefnyddir ar 31 Gorffennaf 2018 | Canran y lleoedd a ddefnyddir ar 31 Gorffennaf 2018 | Comisiynwyd gan awdurdodau yng Nghymru | Comisiynwyd gan awdurdodau nad ydynt yng Nghymru | Canran a gomisiynwyd gan awdurdodau nad ydynt yng Nghymru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | | | | | | |
| Ynys Môn | 7 | 6 | | 2 | 4 | |
| Gwynedd | 41 | 29 | | 5 | 24 | |
| Conwy | 16 | 7 | | 5 | 2 | |
| Sir Ddinbych | 32 | 29 | | 8 | 21 | |
| Sir y Fflint | 33 | 32 | | 11 | 21 | |
| Wrecsam | 57 | 46 | | 28 | 18 | |
| **Is-gyfanswm** | 186 | 149 | 80.1% | 59 | 90 | 60.4% |
| **Canolbarth/ Gorllewin Cymru** | | | | | | |
| Powys | 66 | 55 | | 32 | 23 (i) | |
| Sir Benfro | 35 | 29 | | 24 | 5 | |
| Sir Gaerfyrddin | 24 | 19 | | 17 | 2 | |
| Ceredigion | 0 | 0 | | 0 | 0 | |
| **Is-gyfanswm** | 125 | 103 | 82.4% | 73 | 30 | 29.1% |
| **Gwent** | | | | | | |
| Blaenau Gwent | 14 | 12 | | 12 | 0 | |
| Caerffili | 9 | 6 | | 5 | 1 | |
| Sir Fynwy | 32 | 18 | | 13 | 5 | |
| Torfaen | 4 | 3 | | 3 | 0 | |
| Casnewydd | 18 | 14 | | 9 | 5 | |
| **Is-gyfanswm** | 77 | 53 | 68.8% | 42 | 11 | 20.8% |
| **De Cymru** | | | | | | |
| Bro Morgannwg | 25 | 21 | | 18 | 3 | |
| Caerdydd | 54 | 34 | | 30 | 4 | |
| Abertawe | 43 | 32 | | 31 | 1 | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 23 | 18 | | 17 | 1 | |
| Castell-nedd Port Talbot | 24 | 19 | | 16 | 3 | |
| Merthyr Tudful | 3 | 2 | | 0 | 2 | |
| Rhondda Cynon Taf | 43 | 34 | | 31 | 3 | |
| **Is-gyfanswm** | 215 | 160 | 74.4% | 143 | 17 | 10.6% |
| **Cyfanswm** | 603 | 465 | 77.1% | 317 | 148 | 31.8% |

*Ffynhonnell: Hunanasesiad gan ddarparwyr*
*(i) yn cynnwys un lleoliad a gomisiynwyd gan fwrdd Iechyd yng Nghymru.*


*Tabl 7. Lleoliadau yn ôl lleoliad y comisiynydd ar 31 Gorffennaf 2018 ac eithrio seibiannau byr*

| Plant o Gymru wedi'u lleoli yn eu hardal awdurdod lleol eu hunain | Plant o Gymru wedi'u lleoli mewn ardal awdurdod lleol gyfagos | Plant o Gymru wedi'u lleoli mewn ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru | Plant a leolir yng Nghymru gan awdurdodau nad ydynt yng Nghymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 103 (22.2%) | 83 (17.8%) | 131 (28.2%) | 148 (31.8%) | 465 |

## 6. PROFFIL Y PLANT

### HYD YR ARHOSIAD I BLANT MEWN CARTREF

*Ffigur 3. Hyd yr arhosiad i blant rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018 yn seiliedig ar 151 o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) gan ddarparwyr*




*Ffynhonnell: Hunanasesiad gan ddarparwyr*

### RHYW Y PLANT A LEOLIR

*Tabl 8. Plant yn ôl oedran a rhyw rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018*

| Rhyw | O dan 5 oed | 5 i 10 oed | 11 i 15 oed | 16 i 17 oed | 18 oed a throsodd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bechgyn | * | 105 | 505 | 220 | 50 | 875 |
| Merched | * | 35 | 270 | 145 | 5 | 460 |
| Trawsryweddol | 0 | 0 | * | * | 0 | 10 |
| Anneuaidd | 0 | * | 10 | 15 | 0 | 25 |

*Ffynhonnell: Hunanasesiad gan ddarparwyr.*
*Noder: Cymerwyd y camau canlynol er mwyn lleihau'r risg y bydd data personol yn cael eu rhyddhau heb ganiatâd. Mae pob ffigur wedi'i dalgrynnu i'r pump agosaf. Lle bo llai na phum plentyn mewn unrhyw grŵp, ni nodwyd y nifer gwirioneddol, a defnyddiwyd y symbol * yn ei le.*

- Roedd 67% o'r lleoliadau i fechgyn. O'r rhain, roedd 90% ar gyfer plant 5 i 10 oed, o gymharu â 62% ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed.
- Roedd 11 o gartrefi gofal a oedd yn rhyw-benodol, a dim ond un o'r cartrefi hyn oedd yn gartref i ferched.

### DEWIS IAITH A DULLIAU CYFATHREBU

*Tabl 9. Anghenion iaith a chyfathrebu dewisol plant rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018 (gan gynnwys gofal egwyl fer)*

| Dewis iaith y plant | Dewis iaith y plant | Canran |
|---|---|---|
| Cymraeg | 46 | 3.0% |
| Saesneg | 1076 | 77.0% |
| Iaith arall a siaredir | 5 | 0.4% |
| Iaith Arwyddion Prydain | 9 | 0.7% |
| Makaton | 69 | 5.0% |
| Dull cyfathrebu arall | 189 | 13.6% |
| **Cyfanswm** | **1394** | **100.0%** |

*Ffynhonnell: Hunanasesiad gan ddarparwyr.*

## 7. Y GWEITHLU

Mae'r data hyn yn deillio o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth 151 o gartrefi gofal i blant yng Nghymru.

### RHEOLWYR A GWEITHWYR GOFAL PLANT PRESWYL YN ÔL RHYW A SECTOR

*Tabl 10. Gweithwyr a rheolwyr gofal plant preswyl yn ôl rhyw a sector 31 Gorffennaf 2018*

| | *Cwmni elusennol / Sefydliad Corfforedig Elusennol* | *Cwmni cyfyngedig / Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus* | *Awdurdod lleol* | *Cyfanswm* |
|---|---|---|---|---|
| Rheolwyr gofal plant preswyl | | | | |
| Dynion | 14% | 42% | 22% | 38% |
| Menywod | 86% | 58% | 78% | 62% |
| Trawsryweddol | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Anneuaidd | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Gweithwyr gofal plant preswyl | | | | |
| Dynion | 24% | 42% | 27% | 39% |
| Menywod | 74% | 58% | 73% | 61% |
| Trawsryweddol | 1% | 0% | 0% | 0% |
| Anneuaidd | 0% | 0% | 0% | 0% |

*Ffynhonnell: Hunanasesiad gan ddarparwyr.*

Nododd y SASS fod 61% o reolwyr gofal plant preswyl a 62% o weithwyr gofal plant preswyl yn fenywod. Roedd gwahaniaethau rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn y proffil o ran rhywedd, gyda chyfran uwch o reolwyr a gweithwyr benywaidd yn gweithio i awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

### Y GYMRAEG

Roedd y gyfran o'r staff a allai gyfathrebu'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg yn 12%, ac yn debyg i broffil cyffredinol y rheini sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

### SGILIAU CYFATHREBU ERAILL

Nodwyd bod un deg tri aelod o staff wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS) a saith ar ddefnyddio iaith arwyddion Makaton. Nodwyd bod gan chwe aelod o staff sgiliau mewn ieithoedd Ewropeaidd eraill gan gynnwys Hwngareg, Rwmaneg, iaith Groeg a Phwyleg.



### STATWS CYFLOGAETH A SALWCH

Roedd 89% o'r holl staff ar gontractau parhaol ac roedd y lefelau staffio a adroddwyd yn gymharol isel, sef 2.4%.

### TROSIANT STAFF

Rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018, gwnaeth 922 o reolwyr, staff ac eraill (a fyddai'n cynnwys staff domestig) ddechrau ar eu cyflogaeth, a gwnaeth 642 adael cyflogaeth. Yn ôl nifer sylweddol o'r cyflogeion, y rheswm mwyaf cyffredin am adael y cartref oedd am eu bod yn symud i gartref gofal arall neu'n symud er mwyn datblygu eu gyrfa yn y sector. Fodd bynnag, nodwyd mai un o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros adael cartref oedd er mwyn dechrau swyddi mewn meysydd eraill/dilyn trywydd gyrfa gwahanol.

## DATA GAN GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

### COFRESTRU A CHODAU YMARFER

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, fel rheoleiddiwr y gweithlu, yn cyhoeddi Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer y gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae'n rhaid i bob un sydd am gofrestru ddilyn y Cod wrth gofrestru ac os canfyddir eu bod wedi methu â bodloni'r safonau, mae'n bosibl y bydd achos addasrwydd i ymarfer yn cael ei ddwyn yn eu herbyn. Caiff y Cod Cyflogwyr ei orfodi gennym ni (AGC). Ers 2007, bu'n ofynnol i reolwyr gofal plant preswyl gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Ym mis Ebrill 2018, roedd 205 o reolwyr cofrestredig, sef cynnydd o 5% o 195 yn 2017. O'r rhain, roedd 197 yn gweithio mewn gofal plant preswyl. Cynyddodd y gofrestr 24% rhwng 2013 a 2018, gan gynnwys cynnydd o ychydig dros 7% rhwng 2017 a 2018.

O'r rheiny y mae gwybodaeth cyflogwyr ar gael ar eu cyfer:

- roedd 78% yn gweithio yn y sector preifat;
- roedd 14% yn gweithio yn y sector awdurdodau lleol;
- roedd 8% yn gweithio yn y trydydd sector.

### CYMWYSTERAU

Ym mis Ebrill 2018, roedd gan 46% o'r gweithlu y Diploma Lefel 5 presennol mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol (Rheoli Gofal Preswyl i Bobl Ifanc) ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon. Roedd gan y gweddill gymwysterau cyfwerth neu flaenorol cydnabyddedig. Gwelwyd lleihad yng nghanran y Gweithwyr Gofal Plant Preswyl cymwys o 60% yn 2013 i 51% yn 2018.



## CYMWYSTERAU YN ÔL RHYW A SECTOR

*Tabl 11. Gweithwyr gofal plant preswyl cofrestredig sydd wedi cwblhau'r Fframwaith Sefydlu a'r cymwysterau gofynnol yn ôl sector a rhyw ar 31 Awst 2018*

| | Sector preifat | | Gwirfoddol / trydydd sector | | Awdurdod lleol | | Anhysbys / heb ei gyflogi | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwblhawyd: | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion |
| Fframwaith Sefydlu | 625 (60%) | 417 (52%) | 57 (37%) | 16 (29%) | 61 (20%) | 40 (30%) | 54 (53%) | 40 (60%) |
| Cymwysterau Gofynnol | 422 (40%) | 384 (48%) | 98 (63%) | 39 (71%) | 245 (80%) | 94 (70%) | 47 (47%) | 27 (40%) |
| Cyfanswm | 1047 | 801 | 155 | 55 | 306 | 134 | 101 | 67 |

*Ffynhonnell: Data cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru*

## TROSIANT RHEOLWYR A GWEITHWYR AR Y GOFRESTRU GOFAL CYMDEITHASOL

Yn ôl proffil y gweithlu 2017, roedd bron chwarter y gweithwyr a adawodd y Gofrestr yn ystod y 12 mis diwethaf wedi'u cofrestru ers llai na blwyddyn ac roedd 63% wedi'u cofrestru ers llai na thair blynedd. Rhwng 2017 a 2018, gadawodd 214 y Gofrestr ac ymunodd 398. O'r rhieni a adawodd:

- Ni wnaeth 70% gynnal eu cofrestriad;
- Newidiodd 8% eu rôl i reolwr gofal plant preswyl;
- Cafodd 2% eu tynnu oddi ar y gofrestr gan y pwyllgor addasrwydd i weithio.

## RHEOLWYR A GWEITHWYR COFRESTREDIG YN ÔL RHYW A SECTOR

*Tabl 12. Rheolwyr gofal plant preswyl wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn ôl rhyw a sector ar 31 Mawrth 2018*

| | Sector preifat | | Gwirfoddol / trydydd sector | | Awdurdod lleol | | Anhysbys / heb ei gyflogi | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion |
| Rheolwyr gofal plant preswyl | 90 | 65 | 15 | * | 20 | 5 | 5 | * |
| Gweithwyr gofal plant preswyl | 1050 | 800 | 155 | 55 | 305 | 135 | 100 | 65 |
| Cyfanswm | 1047 | 801 | 155 | 55 | 306 | 134 | 101 | 67 |

*Ffynhonnell: Data cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru. Cymerwyd y camau canlynol er mwyn lleihau'r risg y bydd data personol yn cael eu rhyddhau heb ganiatâd. Mae pob ffigur wedi'i dalgrynnu i'r pump agosaf. Lle bo llai na phum plentyn mewn unrhyw grŵp, ni nodwyd y nifer gwirioneddol, a defnyddiwyd y symbol * yn ei le.*

Ymhlith rheolwyr gofal plant preswyl, oddeutu 2 i 1 oedd y gymhareb gyffredinol o fenywod i ddynion (132 o fenywod, 73 o ddynion). Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau rhwng y sectorau ym mhroffiliau rheolwyr yn ôl rhyw. Yn y trydydd sector roedd y gyfran uchaf o reolwyr benywaidd (93%), wedi'i ddilyn gan awdurdodau lleol (76%) a'r sector preifat (59%).

## ETHNIGRWYDD

Ym mis Ebrill 2018, roedd 95% o'r rheolwyr a 96% o'r gweithwyr yn nodi eu bod yn wyn, yn wyn - Prydeinig, yn wyn - Cymreig, neu'n wyn - Gwyddelig.

## Y GYMRAEG

Rhwng 2014 a 2018, bu cynnydd graddol yng nghanran y rheolwyr a gweithwyr gofal plant preswyl a nodai eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl neu fod ganddynt rywfaint o Gymraeg (Tabl 13).

*Tabl 13. Gallu Cymraeg gofalwyr a gweithwyr gofal plant preswyl - 2014-18*

| | Canran y rheolwyr gofal plant preswyl | | Canran y gweithwyr gofal plant preswyl | |
|---|---|---|---|---|
| | 2014 | 2018 | 2014 | 2018 |
| Rhugl | 10% | 12% | 10% | 11% |
| Rhywfaint o Gymraeg | 17% | 21% | 21% | 27% |
| Dim Cymraeg | 73% | 67% | 69% | 62% |

*Ffynhonnell: Data cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru*



# ATODIAD 1:
# VOICES FROM CARE

Yn ystod y digwyddiadau ymgynghori, gofynnwyd i blant ddisgrifio eu barn am eu profiadau gofal a'u priodoli i'r categorïau canlynol: 'Crysau T' sy'n golygu iawn, 'Pants' sy'n golygu ddim yn dda iawn, 'Sanau' sy'n golygu bod angen gwella (angen tynnu sanau i fyny).

| *Crysau T* | *Pants* | *Sanau* |
|---|---|---|
| Arian ar gyfer y pethau sydd eu hangen e.e. helpu i brynu moped a chael trwydded. | Rheolau. | Fy ymddygiad. |
| Dwi byth ar fy mhen fy hun. | Dim byd hyd yn hyn. | Dim byd. |
| Gallaf fod gyda phlant eraill. | Weithiau dwi ddim yn hoffi'r rheolau. | Dim byd. |
| Siarad am fy nheimladau a pheidio cadw'r cyfan mewn. | Ymddygiad. | Aros am newid sifft. |
| Gwobrau. | Amser gwely, bwyd, boreau, pobl. | Mae rhai pobl yn gallu bod yn blentynnaidd iawn ac yn uchel eu cloch. |
| Mynd i'r ysgol a chwrdd â ffrindiau newydd. | Gwahanol reolau i wahanol bobl. | Y system dim merched. |
| Gwneud ffrindiau newydd yn y cartref. | Y bobl rwy'n byw gyda nhw. | Rheolau'r cartref yn newid. |
| Gweld fy nheulu weithiau. | Rheolau. | Amser gwely hwyrach. |
| Cael arian a thrîts am fod yn dda. | Awdurdodol, diflas. | Dewis fy amser gwely. |
| Rhywun yn arolygu'r lle'n rheolaidd. | Peidio â gweld fy mrawd. | Amser gwely. |
| Agwedd yr ysgol. | Mae'r staff yn or-ofalus pan ddaw at gyfrifiaduron. | Ceisio peidio â bod yn haerllug. |
| Rheolwr y tŷ. | Taith o 3.5 awr mewn car i weld fy nheulu. | Ceisio peidio â chael agwedd ddrwg gyda'r staff. |
| Gweithwyr allweddol. | Mae popeth yn dda heblaw byw mor bell oddi wrth fy nheulu. | Un rheol i bawb. |
| Rwyf wedi dod o fod yn fachgen bach 9 mlwydd oed i berson ifanc mawr 16 oed. | Dydyn ni ddim yn cael losin bob dydd. | Cael coffi. |
| Rydym yn cael mynd i wneud gweithgareddau. | Dydyn ni ddim yn hoffi bechgyn yn ein cartref ni. | Bwyd. |
| Rydych yn cael gweld eich teulu. | Pobl ifanc eraill yn cau drysau'n glep, yn brifo'i gilydd ac yn codi cywilydd arnaf. | Gorfod golchi fy llestri. |
| Cyd-dynnu â phobl. | Rwy'n gweld eisiau mam, rwy'n gweld eisiau mam. | Gwell dewis o ran y bwyd. |
| Rwyf wrth fy mod â bod mewn gofal. | Weithiau, gallant fod yn ormod o fusnes yn lle cartref gofal. | |
| Rwy'n cael amser rhydd. | | |
| Rwy'n cael mynd i'r dref ar fy mhen fy hun. | | |
| Tŷ braf. | | |
| Y therapi yw'r peth gorau am fyw mewn gofal preswyl. | | |
| Mae ein hysgol ar y safle yn rhan wych o ofal preswyl. | | |
| Cael eich lle eich hunan. | | |
| Pobl weddus. | | |
| Bwyd, arian, lleoliad a'r preswylwyr eraill. | | |
| Rwy'n teimlo'n hyderus. | | |
| Staff caredig, cartref glân a lleoliad braf. | | |
| Arian poced i brynu pethau. | | |
| Rwyt ti'n cael £50 bob mis ar gyfer dillad newydd. | | |
| Gwobrau a theithiau. | | |



# ATODIAD 2:
# METHODOLEG

Roedd y fethodoleg ar gyfer yr adolygiad yn cynnwys yr elfennau canlynol.

### Y DATGANIAD HUNANASESU GWASANAETH (SASS)

Roedd yn ofynnol i bob darparwyr cartrefi gofal i blant gynnal SASS. Roedd hyn yn ceisio data o bwynt cyfrifo ar 31 Gorffennaf 2018, rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Gorffennaf 2018.

Cyflwynodd y darparwyr hunanasesiad o ansawdd y gofal roeddent yn ei ddarparu mewn cysylltiad â'r 10 prif faes canlynol. Roedd yn ofynnol iddynt nodi meysydd o arfer da a meysydd i'w datblygu yn ogystal â heriau neu rwystrau.

- Pa mor dda y caiff plant eu cyflwyno i'r cartref
- Mae gan y plant gynllun personol sy'n nodi eu hanghenion unigol o ran gofal a chymorth
- Caiff anghenion iechyd y plant eu diwallu
- Caiff anghenion addysg y plant eu diwallu
- Caiff anghenion cymdeithasol a hamdden y plant eu diwallu
- Mae'r plant yn cael gofal a chymorth o ansawdd da
- Caiff y plant eu cefnogi i gyrraedd eu potensial
- Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag niwed
- Caiff hawliau'r plant eu hyrwyddo'n rhagweithiol
- Mae'r plant yn byw mewn amgylchedd cynnes, diogel a magwrus.

Ar 1 Ebrill 2018, roedd 151 o'r 152 o wasanaethau a oedd yn rhan o gwmpas yr adolygiad wedi cwblhau'r SASS. Roedd y gwasanaethau hyn yn lletya cyfanswm o 500 o blant ar 31 Gorffennaf 2018, a chyfanswm o 1,361 o blant rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018.

### YMWELIADAU AROLYGU Â CHARTREFI GOFAL I BLANT

Cynhaliwyd arolygiadau mewn 56 o gartrefi plant cofrestredig ledled Cymru. Cafodd y rhain eu cynnal o dan fframweithiau deddfwriaethol Deddf Safonau Gofal 2000 neu Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Roedd y rhain yn cynnwys adolygiadau â phwyslais penodol o'r deg prif faes sydd wedi'u cynnwys yn y SASS.

### YMGYSYLLTU Â PHLANT

Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymgysylltu â phlant.

Comisiynwyd Voices From Care Cymru i hwyluso'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2019 yn Wrecsam, Llanelli a Threfforest.

Ymgynghorodd arolygwyr â phlant am eu profiad o'r cartref, a hynny naill ai'n unigol a/neu mewn grwpiau bach wrth arolygu'r gwasanaethau.

Roedd cyfle i'r plant a'r bobl ifanc roi adborth drwy holiadur ar-lein hefyd.

### YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

Ym mis Gorffennaf 2018, cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu i ddarparwyr er mwyn iddynt ymgynghori ar fethodoleg yr adolygiad.

Cawsom ein cefnogi gan grŵp rhanddeiliaid, yr oedd ei aelodau yn dod i'r sefydliadau canlynol:

- Voices from Care Cymru
- Polisi Llywodraeth Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Estyn
- Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru
- Penaethiaid gwasanaethau plant awdurdodau lleol
- Uned Gyswllt yr Heddlu yn Llywodraeth Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Plant (arsylwi)

### CYFRANIADAU GAN SEFYDLIADAU ERAILL

- Adroddiad cryno gan Voices From Care Cymru (Atodiad 2).
- Data a ddarparwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru mewn cysylltiad â'r gweithlu gofal plant preswyl.
- Adroddiad ar ysgolion arbennig annibynnol sy'n gysylltiedig â chartrefi gofal plant cofrestredig, a ddarparwyd gan Estyn (Atodiad 3).
- Data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Addysg yn Lloegr yn seiliedig ar eu data cyfrifiad, yn ymwneud â phlant a oedd yn derbyn gofal ac yn byw mewn cartrefi gofal i blant yng Nghymru.

# ATODIAD 3:
# ADRODDIAD ESTYN AR GYFER YSGOLION ARBENNIG ANNIBYNNOL

**YNGLŶN AG ESTYN**

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, sy'n annibynnol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddo. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg yng Nghymru.

Mae Estyn yn defnyddio fframwaith arolygu cyffredin wrth arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. O dan y fframwaith hwn, caiff y darparwyr eu barnu yn unol â'r 5 maes arolygu:

1. Safonau
2. Llesiant ac agweddau at ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Caiff darparwyr eu barnu gan ddefnyddio graddfa 4 pwynt:

- Rhagorol – Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
- Da – Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
- Digonol ac angen gwella - Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
- Anfoddhaol ac angen gwelliant brys – Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau.

**CYD-DESTUN**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r sector ysgolion annibynnol; mae nifer o'r ysgolion hyn yn cael eu rhedeg gan ddarparwr y cartref gofal i blant lle bydd plant sy'n byw yn y cartref gofal yn mynychu'r ysgol annibynnol. Mae'r ysgolion hyn wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru a'u cymeradwyo.

Ym mis Ionawr 2019, roedd 35 o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru, sef cynnydd o dri ers mis Ionawr 2018. Mae ysgolion arbennig annibynnol yn addysgu disgyblion rhwng 3 i 19 oed sydd ag amrywiaeth eang o anghenion, gan gynnwys anhwylder sbectrwm awtistaidd ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae llawer o'r ysgolion yn fach ac mae'r disgyblion fel arfer yn byw yn y cartrefi plant sy'n gysylltiedig â'r ysgolion. Mae lleiafswm o'r ysgolion hyn hefyd yn addysgu disgyblion dydd neu ddisgyblion sy'n byw mewn cartrefi plant nad ydynt yn gysylltiedig â'r ysgol.

Yn ogystal ag arolygiadau llawn, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro rheolaidd ar ysgolion arbennig annibynnol, a hynny bob 12 i 18 mis fel arfer. Ar gyfer arolygiadau llawn, mae arolygwyr yn defnyddio'r fframwaith ac yn cymhwyso'r dyfarniadau a nodir uchod. Nid yw'r arolygwyr yn gwneud unrhyw ddyfarniadau yn yr ymweliadau monitro. Yn hytrach, maent yn defnyddio'r fframwaith arolygu cyffredin ac yn gwerthuso cryfderau a gwendidau ysgol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

Yn ystod arolygiadau llawn ac ymweliadau monitro, mae Estyn hefyd yn barnu i ba raddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003).

Dros gyfnod arolygiad AGC o fis Gorffennaf 2018 i fis Chwefror 2019, cynhaliodd Estyn 4 arolygiad llawn ac 14 ymweliad monitro. Mae hyn yn cynrychioli ychydig dros hanner cyfanswm yr ysgolion arbennig annibynnol sydd wedi'u cofrestru â Llywodraeth Cymru. Mae 14 o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod y cyfnod hwn wedi'u cofrestru ag AGC ar gyfer y cartrefi plant sy'n gysylltiedig â'r ysgolion.

**CYDYMFFURFIAETH Â RHEOLIADAU SAFONAU YSGOLION ANNIBYNNOL (CYMRU) 2003**

Roedd tair o'r pedair ysgol annibynnol a arolygwyd a thri chwarter o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro yn cydymffurfio â phob rhan o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Methodd un o'r pedair ysgol a arolygwyd a phedair o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro i fodloni o leiaf un o'r Safonau. Methodd tair ysgol â chydymffurfio â Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir. Yn yr ysgolion hyn, ceir diffygion yn y gwaith cynllunio'r cwricwlwm a'r cynlluniau gwaith, ac nid yw'r profiadau dysgu yn cydweddu'n dda ag anghenion y disgyblion, yn enwedig o ran y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ac nid ydynt wedi'u paratoi'n ddigon da ar gyfer heriau bywyd yn y gymuned pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Methodd dwy ysgol â chydymffurfio â Safon 4: Addasrwydd y perchnogion a'r staff. Yn y ddau achos, y rheswm dros hyn yw nad oedd tystysgrif Datgelu a Gwahardd Unigolyn Cyfrifol yr ysgol wedi cael ei chydlofnodi gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r rheoliad, o ganlyniad i newidiadau diweddar ym mherchennog neu bennaeth yr ysgol.

Methodd un ysgol â bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer Safon 3: Llesiant, iechyd a diogelwch disgyblion.

## CRYNODEB O GANLYNIADAU AROLYGIADAU (MEDI 2018 I CHWEFROR 2019)

**SAFONAU**

Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig amrywiaeth eang o anghenion cymdeithasol, anghenion emosiynol ac anghenion addysgol arbennig. Amharwyd yn sylweddol ar ddysgu ffurfiol llawer ohonynt cyn ymuno â'r ysgol. O ganlyniad, ceir amrywiaeth sylweddol yn eu mannau cychwyn a'u cymhelliant unigol. Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgolion hyn â'r cyfartaledd cenedlaethol oherwydd yr amrywiaeth eang yn anghenion emosiynol ac anghenion addysgol arbennig y disgyblion.

Mewn tair o'r ysgolion arbennig annibynnol a arolygwyd yn ystod y cyfnod hwn, ac mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf yn eu dysgu o gymharu â'u mannau cychwyn a'u galluoedd. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau llythrennedd yn dda; er enghraifft, maent yn gwella'u sgiliau darllen yn effeithiol o'u sgoriau llinell sylfaen ac yn datblygu sgiliau ysgrifennu mwy sicr. Mae llawer o'r disgyblion yn atgyfnerthu ac yn gwella'u sgiliau rhifedd. Fe ddônt yn fwy hyderus wrth gymhwyso'r rhain ar draws y cwricwlwm, ac mewn cyd-destunau bywyd go iawn sy'n cefnogi eu hannibyniaeth yn y dyfodol yn dda, fel rheoli arian a theithio.

Yn yr ysgolion hyn, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o gryf wrth ddatblygu sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol perthnasol. Maent yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd ac ar y staff addysgu, yn ateb cwestiynau'n hyderus gan ddefnyddio iaith sy'n benodol i'r pwnc yn gywir. Mae'r disgyblion llai hyderus yn ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau'r athrawon er mwyn ymestyn eu hatebion a chyfiawnhau eu barn â hyder cynyddol. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau meddwl a datrys problemau'n dda. Er enghraifft, maent yn cynllunio ac yn paratoi eu prydau eu hunain neu'n cymhwyso'r sgiliau maent yn eu dysgu yn yr ysgol i leoliadau profiad gwaith yn y gymuned. Mae hyn yn eu helpu i ddod yn fwy annibynnol yn eu bywydau bob dydd.

Erbyn yr amser y byddant yn gadael yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn cyflawni amrywiaeth gwerth chweil o gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ar lefel mynediad. Bydd ambell ddisgybl yn ennill cymwysterau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) mewn pynciau fel Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Ar y cyfan, mae'r cynnydd a wneir gan y disgyblion wrth ddatblygu'u sgiliau yn eu cefnogi'n dda i bontio'n llwyddiannus i gyrchfannau priodol sy'n berthnasol i'w hanghenion a'u galluoedd.

Yn un o'r ysgolion a arolygwyd, ac mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod y cyfod hwn, mae'r cynnydd a wneir gan y disgyblion wrth ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn anghyson. Yn gyffredinol, y rheswm dros hyn yw nad ydynt yn defnyddio'r sgiliau hyn yn ddigon rheolaidd mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn nac yn eu cymhwyso'n ystyrlon mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mewn ambell un o'r ysgolion, mae'r ffordd y caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei gyflwyno'n wael, ac ni cheir digon o gyfleoedd i ddisgyblion gyflawni cymwysterau sy'n cefnogi cynnydd galwedigaethol na llwybrau dysgu yn y dyfodol. Cyfyngedig yw'r cynnydd a wna'r disgyblion yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau addysg unigol, oherwydd diffygion yn y broses o bennu targedau neu ym mhrosesau'r ysgol o olrhain a monitro'r cynnydd.

**LLESIANT AC AGWEDDAU AT DDYSGU**

Ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd yn ystod y cyfnod hwn, ac yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf wrth wella'u safonau llesiant a'u hagweddau at ddysgu. Ym mhob ysgol, bron, mae'r disgyblion yn meithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol â'r staff sy'n eu cefnogi yn effeithiol iawn er mwyn datblygu eu hunan-fri a'u gwydnwch pam fyddant yn wynebu heriau wrth ddysgu. Dros amser, oherwydd y cymorth cyd-gysylltiedig a gânt gan y staff, mae'r disgyblion yn dysgu i reoli eu pryderon yn llwyddiannus a gwella eu hymddygiad mewn cysylltiad â'u hanghenion unigol. Mae hyn yn eu helpu i ymgysylltu'n adeiladol mewn gwersi a meithrin eu sgiliau cymdeithasol a'u hunanhyder.

Mae llawer o'r disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn dod i'r gwersi'n brydlon. Yn y gwersi, maent yn gweithio'n effeithiol, a hynny'n annibynnol ac wrth gydweithio â'u cymheiriaid. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn awyddus i rannu eu cyflawniadau a'r cynnydd maent wedi'i wneud yn eu dysgu ag ymwelwyr. Maent yn ymrwymo i dasgau'n dda ac yn llwyddo i ganolbwyntio er mwyn eu cyflawni'n llwyddiannus. Yn yr ysgolion hyn, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth yn briodol ac yn cyfrannu'n adeiladol at fywyd yr ysgol a'r gymuned leol.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth sicr o ffyrdd iach o fyw, ac yn dysgu sut y bydd eu dewisiadau'n effeithio ar eu bywydau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae llawer o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn ymarfer corff yn rheolaidd a gallant egluro buddion deiet iach. Yn bwysig ddigon, mae llawer ohonynt yn datblygu eu dealltwriaeth o gydberthnasau iach drwy ymyriadau therapiwtig sydd wedi'u cynllunio'n dda a darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol.

Mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro yn ystod y cyfnod hwn, mae presenoldeb ychydig o ddisgyblion yn rhy isel. Araf yw'r cynnydd a wneir gan y disgyblion hyn wrth reoli eu hymddygiad ac nid ydynt yn ymgysylltu'n dda â dysgu. Nid ydynt yn ymateb yn dda i gymorth y staff a byddant yn gadael gwersi'n gynnar heb gwblhau tasgau.

## ADDYSGU A PHROFIADAU DYSGU

Yn achos dwy o'r ysgolion a arolygwyd ac oddeutu hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, mae'r profiadau addysgu a dysgu yn dda. Yn yr ysgolion hyn, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a pherthnasol sy'n diwallu anghenion y disgyblion yn dda. Mae gwaith cynllunio'r cwricwlwm yn cynnwys pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion, yn ogystal ag amrywiaeth eang o'r sgiliau y bydd eu hangen ar y disgyblion yn eu bywydau yn y dyfodol, er enghraifft, drwy'r ddarpariaeth ar gyfer addysg awyr agored, sgiliau byw'n annibynnol a phrofiad gwaith. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu partneriaethau buddiol â busnesau a cholegau lleol er mwyn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu dysgu i gyd-destunau bywyd go iawn sy'n berthnasol i'r llwybrau yn y dyfodol.

Yn yr ysgolion hyn, mae'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth pwnc sicr i gynllunio gwersi heriol sy'n adeiladu ar sefydlogrwydd dysgu blaenorol y disgyblion. Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn cydweithio'n effeithiol iawn ac yn dra ymwybodol o gryfderau eu disgyblion a'r meysydd y mae angen iddynt eu datblygu. Maent yn rhannu disgwyliadau uchel o ran ymddygiad a chynnydd y disgyblion, ac yn darparu cymorth a her hynod effeithiol i'r disgyblion. Maent yn teilwra'r cwricwlwm yn fedrus i anghenion unigol y disgyblion ac yn darparu amrywiaeth ysgogol o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda sy'n ymestyn sgiliau datrys problemau'r disgyblion.

Yn achos dwy o'r ysgolion a arolygwyd ac oddeutu hanner yr ysgolion a fonitrwyd, roedd angen gwneud gwelliannau i agweddau ar y profiadau dysgu ac addysgu. Yn gyffredinol, y rheswm dros hyn yw bod yr athrawon yn gosod gweithgareddau dysgu nad ydynt yn herio'n ddigonol ac nad ydynt wedi'u teilwra'n ddigon da o alluoedd ac anghenion disgyblion. Mae'r athrawon yn dibynnu'n ormodol ar nifer cyfyngedig o ddulliau addysgu, megis defnyddio taflenni gwaith, ac nid ydynt yn cynnwys digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu galluoedd meddwl yn annibynnol. Yn yr ysgolion hyn, ceir diffyg parhad a chydlyniad yn y gwaith cynllunio'r cwricwlwm, ac nid yw'r athrawon yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) mewn ffordd gynyddol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd anghyson wrth ddatblygu'r sgiliau hyn.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r cwricwlwm yn rhy gul. Prin yw'r cyfleodd i ddisgyblion ddilyn cyrsiau achredededig, neu i gael mynediad at golegau addysg bellach a phrofiadau dysgu yn y gymuned.

## GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y gofal, y cymorth a'r arweiniad a roddir i ddisgyblion yn dda neu'n rhagorol yn nhair o'r ysgolion a arolygwyd yn ystod y cyfnod hwn, ac mae'n nodwedd gref mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro. Yn yr ysgolion hyn, mae gan athrawon a staff cymorth ddealltwriaeth gref o anghenion a galluoedd y disgyblion. Mae'r athrawon a'r arweinwyr yn casglu amrywiaeth eang o dystiolaeth at ei gilydd i fonitro ac olrhain y cynnydd a wneir gan ddisgyblion hon wrth ddysgu'n effeithiol. Maent yn ystyried y wybodaeth hon yn ofalus ynghyd â data ar bresenoldeb, ymddygiad ac agweddau eraill ar lesiant y disgyblion er mwyn creu cofnod cadarn o'r cynnydd a wneir gan y disgyblion dros amser. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i roi amrywiaeth fuddiol o ymyriadau ar waith sy'n cefnogi anghenion y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Nodwedd arbennig o effeithiol o'r agwedd hon ar waith yr ysgolion yw'r bartneriaeth rhwng y staff addysgu, y staff preswyl a'r staff therapi. Mewn llawer o ysgolion, mae'r cydweithio cydlynus hwn yn hyrwyddo dull cyson o helpu'r disgyblion i reoli eu hanghenion cymhleth a gwella eu hagweddau at ddysgu. Dros amser, mae'r ymagwedd hon yn helpu'n sylweddol i wella hyder y disgyblion, y ffordd maent yn ymgysylltu, a'u canfyddiad ohonynt eu hunain fel dysgwyr llwyddiannus.

Mae llawer o'r ysgolion hyn yn rhoi pwyslais cryf ac addas ar sicrhau bod gan y disgyblion y sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnynt er mwyn gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach yn eu bywydau fel oedolion, a hynny drwy'r cwricwlwm a gynllunnir a thrwy ymyriadau therapiwtig arbenigol. Maent yn rhoi cyngor ac arweiniad gwerth chweil ar yrfaoedd a byw'n annibynnol, sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o'r disgyblion i bontio'n llwyddiannus i addysg bellach neu hyfforddiant, cyflogaeth a threfniadau byw â chymorth neu fyw'n annibynnol pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Mewn un ysgol a arolygwyd ac mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae angen gwneud gwelliannau i agweddau ar y ddarpariaeth a wneir ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Yn benodol, nid yw asesiadau llinell sylfaen o sgiliau'r disgyblion yn ddigon cadarn, ac nid yw'r trefniadau i staff olrhain a monitro'r cynnydd a wneir gan y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn ddigon datblygedig. Mewn ambell ysgol, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer cyfrifoldebau a heriau bywyd yn y gymuned pan fyddant yn gadael yr ysgol.

## ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda yn achos dwy o'r ysgolion a arolygwyd ac maent yn nodwedd gref mewn oddeutu hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro yn ystod y cyfnod hwn. Yn yr ysgolion hyn, mae'r arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth gref a phwrpasol sy'n canolbwyntio'n dda ar wella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau i'r disgyblion. Maent yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n hyrwyddo gwaith tîm effeithiol rhwng y timau staff addysgu, preswyl ac arbenigol. O ganlyniad, maent yn creu ethos cadarnhaol a magwrus sy'n cefnogi anghenion y disgyblion yn effeithiol. Yn yr ysgolion hyn, mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac mae ganddynt brosesau addas ar waith i olrhain a monitro'r cynnydd a wneir gan y disgyblion unigol, a'u llesiant. Mae'r arweinwyr yn edrych tuag allan ac yn ymgysylltu'n briodol â darparwyr eraill er mwyn nodi arfer da sy'n atgyfnerthu eu gwaith ac sydd er budd eu disgyblion.

Yn achos dwy o'r ysgolion a arolygwyd, ac oddeutu hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, mae angen gwneud gwelliannau i agweddau pwysig ar yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Yn benodol, nid yw'r gweithgareddau hunanwerthuso na'r gweithgareddau cynllunio gwelliant yn ddigon trylwyr. Yn yr ysgolion hyn, nid yw'r wybodaeth a gesglir gan yr arweinwyr ar y cynnydd a wneir gan y disgyblion yn canolbwyntio'n glir ar safonau sgiliau'r disgyblion ac ni chaiff ei defnyddio'n ddigon da i nodi meysydd i'w gwella ar gyfer yr ysgol gyfan. Nid yw'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn nodi'r union gamau y dylid eu cymryd yn ddigon clir, nac ychwaith yn nodi'r adnoddau na'r amser sydd eu hangen er mwyn rhoi newidiadau ar waith yn llwyddiannus yn ddigon clir.

Mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, nid oes pennaeth parhaol ac mae'r trefniadau hirdymor ar gyfer uwch-arweinyddiaeth yr ysgol yn ansicr. Mae hyn yn creu ansicrwydd ynghylch cyfeiriad yr ysgol yn y dyfodol ac nid yw'n helpu'r ysgol i gynllunio'n hyderus ar gyfer gwelliannau.

arolygiaethgofal.cymru

@arolygu_gofal

@arolygugofal

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**